

Mynd i'r Afael â Thlodi Plant yng Nghymru



Canllaw Arfer Da i Ysgolion
(Ail Rifyn)



Mae **Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru** (RhDTP) yn glymblaid o gonsyrn sy'n canolbwyntio ar ddileu tlodi ymysg plant yng Nghymru, ac sy'n cael ei gydlynw a'i reoli o ddydd i ddydd gan Plant yng Nghymru. Mae'r llywio yn cynnwys cynrychiolaeth o'r sectorau gwirfoddol a statudol, ac mae gan y Rhwydwaith aelodaeth gefnogol gynyddol yn deillio o drawstoriad eang o asiantaethau. endchildpovertycymru.org.

Mae aelodau'r **Grŵp Llywio** yn cynnwys Barnardo's Cymru, Plant yng Nghymru, Achub y Plant Cymru, NEA Cymru, Gweithredu dros Blant, Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant Cymru, CLILC (arsylwyr), Cyngor ar Bopeth, Oxfam Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Shelter Cymru, Ymddiriedolaeth Frank Buttle, Fairbridge Cymru, TUC Cymru (arsylwyr), Llais Defnyddwyr Cymru, Datrys Tlodi Plant a Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru (arsylwyr).



SWAMWAC

Mae chwe Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd a Phort Talbot, Sir Benfro, Powys, ac Abertawe yn cydweithio fel swamwac, Consortiwm De Orllewin a Chanolbarth Cymru, er mwyn datblygu systemau a ffyrdd newydd o weithio, er mwyn darparu gwasanaethau gwell a sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer plant a phobl ifanc.



Datrys Tlodi Plant Mae Datrys Tlodi Plant Cymru yn fenter ar y cyd rhwng Achub y Plant a Llywodraeth Cymru. Mae'r prosiect yn darparu adnoddau hyfforddi wyneb yn wyneb ac ar-lein er mwyn cynorthwyo cyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella'r canlyniadau i blant a phobl ifanc mewn aelwydydd incwm isel. Am ragor o wybodaeth, trowch at childpovertysolutions.org.

Consortiwm Teuluoedd yn Gyntaf Canolbarth a Gorllewin Cymru: Mae pedair Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc (PPPI) Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Phowys (gan gynnwys Bwrdd Iechyd Hywel Dda a Bwrdd Iechyd addysgu Powys) yn gweithio fel consortiwm er mwyn cynorthwyo datblygiad eu rhaglenni *Teuluoedd yn Gyntaf*. Nodir dull gweithredu *Teuluoedd yn Gyntaf* o fewn Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru fel elfen hollbwysig er mwyn cyflawni ei hamcanion. Diben *Teuluoedd yn Gyntaf* yw sicrhau bod rhwydwaith o ddarpariaeth yn bodoli ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd, y mae'n ymateb i'w hanghenion ac yn darparu dull gweithredu ataliol yn bennaf, lle y caiff materion eu nodi ac ymyrraeth ei darparu yn gynnar, cyn i broblemau waethygu.

Plant yng Nghymru yw'r sefydliad ambarél cenedlaethol i blant yng Nghymru. Nod Plant yng Nghymru yw hyrwyddo buddiannau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru, a gweithredu er mwyn nodi a diwallu eu hanghenion. www.childreninwales.org.uk



Plant yng Nghymru
25 Plas Winsor, Caerdydd CF10 3BZ
Ffôn: 029 2034 2434 Ffacs: 029 2034 3134
www.endchildpovertycymru.org.uk
www.childreninwales.org.uk

Cynnwys

Rhagair	5
Adran 1: Cyflwyniad	7
Adran 2: Incwm Teuluol	10
Adran 3: Iechyd a Lles	13
Adran 4: Helpu plant tlotach i lwyddo yn yr ysgol	17
Adran 5: Cynnwys Rhieni yn yr Ysgol	24
Gwybodaeth Bellach	27
Cyfeiriadau	30
Atodiad A: Offeryn Hunanwerthuso	33

Rhagair

Er bod lefelau tlodi plant yng Nghymru wedi gostwng dros y ddegawd ddiwethafⁱ, mae nifer y plant y maent yn byw mewn tlodi yn codi unwaith eto, ac mae gwaith dadansoddi annibynnol yn rhagweld y bydd y duedd hon yn parhau i ddangos cynnydd o leiaf yn y tymor byr i'r tymor canoligⁱⁱ. Mae 33 y cant o blant yng Nghymru yn byw mewn aelwydydd lle y gwelir tlodi incwm cymharolⁱⁱⁱ ac mae'r ganran hon yn uwch na'r ganran a welir yng nghaneddloedd eraill y DU. Mae hyn yn cyfateb ag oddeutu 200,000 o blant, y mae hanner ohonynt yn byw mewn teuluoedd sy'n gweithio^{iv}. Mae Llywodraeth Cymru wedi ail-gadarnhau ei hymrwymiad i ddileu tlodi plant erbyn 2020^v ac mae'r targed hwn wedi cael ei ymgorffori yn y gyfraith gan Lywodraeth y DU^{vi}.

Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010^{vii} yn gwneud darpariaeth statudol i fwrw ymlaen gydag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael gyda thlodi plant ac mae'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddatblygu strategaeth tlodi plant newydd. Mae Rhan 1 y Mesur yn darparu'r fframwaith y disgwylir i gyrff cyhoeddus ddangos eu hymrwymiad ynddo, trwy gyhoeddi strategaethau tlodi plant. Mae 13 o Nodau Eang yn cynnig sail i'r Mesur, y maent yn cynnwys

- Lleihau anghydraddoldebau rhwng plant, o ran eu cyrhaeddiad addysgol

Mae Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2011 yn nodi tri Amcan Strategol y maent yn croesi'r holl Nodau Eang. Y rhain yw

1. Gostwng nifer y teuluoedd mewn aelwydydd heb waith
2. Gwellu lefel sgiliau rhieni a phobl ifanc mewn teuluoedd incwm isel er mwyn iddynt allu sicrhau cyflogaeth sy'n talu'n well
3. Lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli o ran canlyniadau iechyd, canlyniadau addysg a chanlyniadau economaidd plant y maent yn byw mewn tlodi, trwy wella canlyniadau'r rhai tlotaf.

Mae Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion 2008^{viii} yn nodi bod ysgolion yn ysgogwyr newid wrth leihau anghydraddoldeb ac mae'n cydnabod mai anfantais gymdeithasol yw'r rhwystr unigol mwyaf sy'n atal cyflawniad ym myd addysg. Yn ogystal â gwella llythrennedd a rhifedd, bydd gan drydedd blaenoriaeth y Fframwaith hwn – *lleihau effaith tlodi ar gyflawniad addysgol* – law yn llaw gyda'r gwaith o gyflawni cydrannau craidd y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru)^{ix}, y potensial i wella canlyniadau a phrofiad addysgol nifer o'n plant tlotaf. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar draws pob agwedd ar fyd addysg hefyd, er mwyn canolbwyntio o'r newydd ar safonau uwch trwy fynnu dull gweithredu newydd ar gyfer atebolrwydd, arweinyddiaeth gadarn, disgwyliadau mwy eglur a monitro cynnydd ar bob lefel^x. Yn ogystal, mae rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn hyrwyddo systemau a chymorth aml-asiantaeth effeithiol, gyda phwyslais ar waith atal ac ymyrraeth gynnar, yn enwedig ar gyfer y rhai y maent yn byw mewn tlodi

Nod y Canllaw hwn yw:

- Codi ymwybyddiaeth o dlodi plant ymhlith staff mewn ysgolion
- Datblygu'r ddealltwriaeth o'r cyfraniad y mae modd i ysgolion ei wneud i'r dasg heriol o wella canlyniadau addysgol plant y maent yn byw mewn tlodi
- Darparu Rhestr Gyfeirio y bydd modd ei defnyddio fel rhan o broses hunanasesu ysgol
- Darparu cyfeiriadau ac adnoddau defnyddiol
- Helpu ysgolion i werthuso'u harfer eu hunain a chynllunio ar gyfer y dyfodol

Defnyddio'r Llyfryn hwn

- Ysgrifennwyd y canllaw hwn yn unol â fframweithiau cyllido a pholisi cyfredol y llywodraeth. Bydd RhDTP yn parhau i lobio am newidiadau i'r polisi, yr arfer a'r cyllid mewn perthynas ag addysg a thlodi plant^{xi}
- Mae'r prif destun yn rhoi crynodeb o'r hyn yr ydym yn ei wybod am y cysylltiadau rhwng tlodi plant ac addysg
- Mae'r ddogfen yn cynnwys dyfyniadau gan bobl ifanc yng Nghymru, gan gynnig eu persbectif nhw
- Mae modd gweld gwybodaeth bellach mewn bocsys testun yn y ddogfen, yn ogystal â thudalen x, ac mae'n cynnwys manylion cyswllt sefydliadau perthnasol
- Nid ydym wedi gwneud argymhellion ar wahân ar gyfer gwahanol leoliadau (blynyddoedd cynnar, cynradd, uwchradd). Ceir nifer o faterion cyffredin, ond bydd y camau gweithredu y bydd modd eu cymryd yn amrywio o un sefydliad addysgol i'r llall
- Mawr obeithiwn y bydd y rhestr gyfeirio ynghylch hunanasesu ar dudalen 33 yn offeryn defnyddiol i ysgolion, er mwyn iddynt allu gwerthuso'u harfer eu hunain a phenderfynu ar ffordd ymlaen sy'n realistig

Adran 1: Cyflwyniad

Beth yw tlodi?

Ni cheir un diffiniad safonol o dlodi a dderbynnir gan bawb, fodd bynnag, yn Strategaeth Tlodi Plant Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn diffinio tlodi fel a ganlyn:

'cyflwr tymor hir o beidio â bod ag adnoddau digonol i fforddio bwyd, amodau byw neu amwynderau rhesymol neu gymryd rhan mewn gweithgareddau (megis mynediad at gymdogaeth a mannau agored deniadol), y mae eraill mewn cymdeithas yn eu derbyn fel mater o drefn'

Mae'n cydnabod nad rhywbeth sy'n ymwneud ag incwm yn unig yw tlodi, ond ei fod yn ymwneud ag allgáu pobl y maent yn byw mewn tlodi rhag manteisio ar batrymau, arferion a gweithgareddau byw arferol i bob pwrpas. Bydd cyfeiriadau at dlodi plant trwy gydol y ddogfen hon yn cyfeirio at bobl ifanc yn ogystal â phlant.

Pa blant y maent fwyaf mewn perygl o fyw mewn tlodi?

Mae ffigurau Llywodraeth y DU yn dangos bod y plant canlynol yn y perygl mwyaf o fod yn dlawd:

- Plant mewn teuluoedd rhieni unigol
- Plant mewn teuluoedd mawr (mwy na thri o blant)
- Plant sy'n cael eu magu mewn aelwydydd lle nad oes gan unrhyw un gyflogaeth amser llawn
- Plant mewn teuluoedd y maent yn perthyn i rai grwpiau ethnig lleiafrifol
- Plant mewn aelwydydd y maent yn cynnwys plentyn neu oedolyn anabl

Er nad yw'n cael ei gofnodi yn ystadegau'r Llywodraeth ynghylch tlodi incwm, mae plant ceiswyr lloches a gweithwyr mudol yn agored iawn i niwed ac yn byw ar incwm y mae lawer yn is na lefelau cynhaliaeth, am flynyddoedd lawer yn aml.^{xii}

Yn Strategaeth Tlodi Plant Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn amlygu'r ffaith bod y plant canlynol yn y perygl mwyaf o ddioddef tlodi hefyd:

- Plant sy'n Derbyng Gofal a'r Rhai sy'n Gadael Gofal
- Plant a phobl ifanc yn y System Cyfiawnder Ieuencid
- Dioddefwyr Cam-drin Domestig

Sut y mae profiad plant o dlodi yn effeithio arnynt?

Mae cael magwraeth mewn sefyllfa o dlodi yn gysylltiedig gyda chanlyniadau gwael. Mae plant tlotach:

- Yn llai tebygol o aros ymlaen yn yr ysgol^{xiii} xxv
- Yn fwy tebygol o feddu ar lai o gymwysterau neu ddim cymwysterau o gwbl, yn enwedig plant y maent yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol^{xiv}

- Yn fwy tebygol o gael eu geni cyn pryd, ac mae'n fwy tebygol y bydd eu pwysau geni yn is^{xv},
xvi xvii
- Pymtheg gwaith yn fwy tebygol o farw mewn tân yn y cartref^{xviii}
- Pum gwaith yn fwy tebygol o farw mewn damwain^{xix}
- Tair gwaith yn fwy tebygol o gael eu taro gan gar^{xx}
- Deg gwaith yn fwy tebygol o fod yn fam yn eu harddegau^{xxi}
- Yn fwy tebygol o ddioddef lefelau gordewdra uwch^{xxii}

Mae gwaith ymchwil a gynhaliwyd yng Nghymru yn awgrymu bod plant tlawd yn colli cyfleoedd weithiau oherwydd bod angen iddynt gyflawni cyfrifoldebau gofalu yn y cartref neu oherwydd bod angen iddynt weithio er mwyn codi incwm y teulu.^{xxiii} Yn ogystal, efallai y byddant yn dioddef stigma oherwydd nad ydynt yn gallu fforddio gwisg ysgol gywir, oherwydd eu bod yn cael prydau ysgol am ddim, ac oherwydd nad oes modd iddynt brynu eitemau hanfodol fel pinnau ysgrifennu a chyfrifianellau y byddant eu hangen yn yr ysgol.

“Ni fydd pobl yn hawlio prydau ysgol am ddim oherwydd bod hyn yn codi cywilydd arnynt. Roeddwn yn gadael i bobl yr oedd ganddynt arian fynd o'm blaen i yn y ciw er mwyn iddynt beidio gweld” bachgen 12 oed^{xxiv}

Pam bod ysgolion yn bwysig wrth fynd i'r afael â thlodi plant?

Mae tystiolaeth yn dangos cyswllt eglur rhwng tlodi incwm a chyrhaeddiad addysgol is^{xxv}. Mae'r effaith hon yn cychwyn yn gynnar – erbyn yr adeg y byddant yn dair oed, mae sefyllfa yn gallu codi lle y bydd plant o deuluoedd incwm isel gymaint â naw mis y tu ôl i'w cyfoedion mwy cefnog^{xxvi}, ac erbyn yr adeg pan fyddant yn 14 oed, efallai y bydd plant tlodach ddwy flynedd y tu ôl^{xxvii}. Yn ystod pob cyfnod allweddol yng Nghymru, mae dysgwyr y maent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn tueddu i berfformio ychydig yn waeth na'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn erbyn ystod o ddangosyddion perfformiad^{xxviii}.

Mae ysgolion yn gynhwysol a cheir tystiolaeth bod modd i ysgolion leihau effaith amddifadedd ar gynnydd plant^{xxix}. Mae modd i blant difreintiedig sicrhau manteision sylweddol o gael profiad cyn ysgol o ansawdd da, yn enwedig pan welir cymysgedd o blant o wahanol gefndiroedd cymdeithasol^{xxx}. Yn ogystal, cyfrifwyd bod modd i ysgolion uwchradd o ansawdd uchel ychwanegu hyd at 14 y cant o ran gwerth canlyniadau, o'u cymharu gydag ysgolion o ansawdd gwael.^{xxxi}

Mae Llywodraeth Cymru wedi amlygu'r rôl hanfodol a gyflawnir gan ysgolion wrth fynd i'r afael â thlodi plant. Mae ei Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion^{xxxii} yn pwysleisio pwysigrwydd ysgolion yn cydweithio gyda rhieni, y gymuned leol, awdurdodau lleol, gwasanaethau a mudiadau'r Trydydd Sector er mwyn gwella canlyniadau dysgu disgyblion difreintiedig. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod modd i addysg gymunedol o ansawdd da ac y mae'n targedu pobl ifanc difreintiedig yn benodol, gael effaith sylweddol ar eu hagwedd tuag at addysg a chyflawniad^{xxxiii}. Gyda chymorth grwpiau cymunedol a gwirfoddol, byddai modd i ysgolion, er enghraifft, ddatblygu gwasanaethau plant ac ieuencid mewn partneriaeth gyda chlwestwr o ysgolion yn eu hardal. Byddai modd i Cymunedau yn Gyntaf gymryd rhan yn y gweithgarwch hwn^{xxxiv}.

“Rydych dan straen, rydych yn ymateb mewn ffordd fyrbwyll, a byddwch yn cael eich gwahardd o'r ysgol. Ni fyddwch yn cael unrhyw addysg, felly ni fydd modd i chi gael swydd weddol ac nid oes modd i chi osgoi tlodi”

Person Ifanc^{xxiv}

Mae nifer o ysgolion yng Nghymru wedi datblygu arferion sy'n cynorthwyo plant tlotach heb beri stigma. Bu grŵp gorchwyl ar y cyd o Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a sefydliadau addysg allweddol yn ystyried y ffactorau sy'n cyfrannu at y bwlch mewn perfformiad rhwng ysgolion, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd llewyrchus a difreintiedig. Canfu ei adroddiad, 'Cau'r Bwlch'^{xxxv & xxxvi} bod modd sicrhau canlyniadau llwyddiannus hyd yn oed pan fo amgylchiadau ysgol yn heriol, gan ddangos nad yw amddifadedd o reidrwydd yn arwain at berfformiad gwael.

Mae modd i blant o gefndiroedd cymharol dlawd sicrhau'r lefel uchaf, ac fe'u gwelir yn gwneud hynny, ac mae modd i ysgolion sy'n gwasanaethu cymdogaethau tlawd berfformio'n well nag ysgolion y mae ganddynt ddalgylchoedd mwy cefnog^{xxviii}.

Canfu Estyn bod ysgolion y maent yn gwneud yn dda mewn ardaloedd difreintiedig:

- Yn meddu ar arweinyddiaeth effeithiol iawn ac addysgu da bob amser
- Yn rhoi sylw sylweddol i'r gwaith o feithrin sgiliau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion, a gwella'u hyder a'u hunan-barch
- Yn rhoi pwyslais ar ddarpariaeth allgyrsiol ac y tu allan i oriau ysgol, yn ogystal â chymorth addysgol ychwanegol megis clybiau gwaith cartref,;
- Yn meddu ar ddisgwyliadau uchel o ran safonau ac ymddygiad, ac ni fyddant yn derbyn esgusodion am ddarpariaeth wael neu dangyflawni;
- Yn cydweithio'n agos gyda rhieni a'r gymuned ehangach er mwyn atgyfnerthu disgwyliadau

“Mae popeth y byddwch yn ei wneud pan fyddwch yn ifanc yn effeithio arnoch pan fyddwch yn hŷn – fel ysgol – os na fyddwch yn gwneud yn dda, bydd gennych swydd da i ddim a dim arian” Person Ifanc^{xxiv}

Yn ogystal, mae gan ysgolion y maent yn gwneud yn dda mewn amgylchiadau heriol gwricwlwm bywiog sy'n cynnwys gweithgareddau cyfoethogi, rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol wedi'i strwythuro a'i chyflwyno yn dda, a lle go iawn ar gyfer llais y disgyblion, sy'n sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle i ddweud eu dweud am yr hyn y byddant yn ei ddysgu a sut y byddant yn dysgu. Maent yn rhoi pwyslais ar gychwyn buan hefyd pan fydd plant yn dechrau mynychu'r ysgol, trwy gyfrwng ymyrraeth ac asesu cynnar.

Mewn ysgolion uwchradd llwyddiannus, mae'r nodweddion ychwanegol yn cynnwys:

- o pwyslais cryf ar gynhwysiant cymdeithasol,
- o ffocws ar ddiwallu anghenion pob disgybl heb amharu ar safonau academiaidd uchel
- o parodrwydd i ddatblygu'r cwricwlwm er mwyn diwallu anghenion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4, lle y mae uchelgais Llwybrau Dysgu 14-19^{xxxvii} wedi cael ei goledu.

Mae gan yr ysgolion hyn farn gadarnhaol am werth addysg alwedigaethol ac maent yn gweithio gydag ysgolion eraill, colegau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith er mwyn datblygu darpariaeth ar y cyd yng nghyfnod allweddol 4 ac ar gyfer disgyblion ôl-16.

Yn ogystal, mae ysgolion sy'n gweithredu polisïau er mwyn gwella ethos yr ysgol yn gwella canlyniadau academiaidd ac iechyd a lles plant hefyd^{xxxviii}

Adran 2: Incwm Teuluol

Canfu astudiaeth a gynhaliwyd ar gyfer yr Adran Addysg a Sgiliau^{xxxix} mai'r cyfanswm cyfartalog sy'n cael ei wario gan rieni/gofalwyr ar blentyn mewn ysgol gynradd yw £683.79, a £1,195.47 ar blentyn mewn ysgol uwchradd. (Mae hyn yn cynnwys cost cinio, cludiant i'r ysgol, deunyddiau gwaith cwrs, teithiau, ffotograffau a chyfraniadau i gronfeydd ysgol). I deuluoedd incwm isel, yn enwedig teuluoedd mwy, mae hwn yn swm sylweddol.

Sut mae modd i ysgolion helpu i godi incwm teuluol gymaint ag y bo modd?

Er nad yw ysgolion yn cael unrhyw ddylanwad uniongyrchol ar incwm teuluol, mae modd iddynt:

Ddatblygu **partneriaethau gydag asiantaethau cyngori** megis Cyngor ar Bopeth Cymru, sy'n gallu cynnig cyngor cyfrinachol am ddim er mwyn helpu teuluoedd i hawlio'r hyn y mae ganddynt yr hawl i'w gael, a'u helpu i ddatrys problemau cyfreithiol ac ariannol

- Darparu gwybodaeth i blant a theuluoedd ynghylch **grantiau gwisg ysgol**. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynllun grantiau er mwyn prynu gwisg ysgol, y maent ar gael i ddisgyblion yng Nghymru y maent yn gymwys i gael prydau ysgol ysgol am ddim ac y maent yn 11 oed ar ddechrau'r flwyddyn ysgol. Dylai rhieni/gofalwyr disgyblion wneud cais i'r awdurdod sy'n cynnal ysgol eu plentyn. Mae rhai awdurdodau lleol yn cynnig grantiau hefyd, ond mae'r amodau cymhwyso a'u hargaeledd yn amrywio
- Ystyried **effaith ariannol dewis gwisg ysgol benodol** gan bod rhai rhieni yn wynebu caledi go iawn pan fyddant yn prynu gwisg ysgol ar gyfer eu plant. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru^{xi} ynghylch polisi gwisg ysgol yn amlygu pwysigrwydd:
 - Cael lliw gwisg ysgol syml y mae modd ei phrynu mewn amrywiaeth o siopau lleol, er mwyn galluogi rhieni i gymharu prisiau, gan osgoi eitemau drud fel blaserau a chapiau
 - Yn rhestr cit yr ysgol, nodi pryd y bydd angen eitemau er mwyn sicrhau na fydd yn rhaid i'r rhieni brynu'r holl eitemau ar yr un pryd
 - Osgoi defnyddio logos ar bob eitem yn y wisg gan bod hyn yn gallu bod yn gostus – cyfyngu logos i un eitem neu ddim eu cael o gwbl
 - Osgoi amrywio'r lliwiau ar gyfer grwpiau blwyddyn gwahanol a newid y wisg yn aml, gan bod hyn yn gallu bod yn ddud i rieni

“...yn ein hen ysgol, roedd gennym drowsus du, siwmpwr ddu a chrys gwyn gan bod hynny'n hawdd. Rydym wedi trafod y peth gyda'r athrawon ac fel y dywedaís, mae'n hawdd gan bod modd i chi brynu trowsus du o unrhyw le bron, ac yn y siopau rhatach efallai, hyd yn oed mewn siopau elusen ond ar gyfer ysgol Rebecca, gwn bod yn rhaid i chi fynd i siop arbennig i gael eich gwisg, ac mae hynny'n anodd” merch 16 oed^{xli}

Darparu gwybodaeth am **Lwfansau Cynhaliaeth Addysg** Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr sy'n penderfynu aros ymlaen yn yr ysgol neu mewn coleg, a gwybodaeth am **Grantiau Dysgu'r Cynulliad** i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau addysg bellach neu addysg uwch israddedig^{xlii}

“A pheth arall, pan fyddwch yn mynd i'r ysgol uwchradd ac yn aros ymlaen, mae modd i chi brynu'r canllaw adolygu hwn am £3.50 ac mae'n dweud popeth wrthyhych y bydd angen i chi ei wybod am eich TGAU a'r hyn y bydd angen i chi ei wybod. Ni all rhai pobl fforddio parhau i brynu'r holl ganllawiau hyn, pan fydd gennych ddeg pwnc, ac mae'n rhaid i chi brynu tua dau lyfr ar gyfer pob un. Mae hyn yn gostus.” Person Ifanc^{xli}

Codi'r niferoedd sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim trwy ddarparu gwybodaeth am yr hawl i'w cael a'r ffaith eu bod ar gael, a thrwy gyflwyno darpariaeth nad yw'n creu stigma, e.e. systemau cardiau caniatáu. (Ni fydd nifer o blant y maent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn eu hawlio oherwydd eu bod yn ofni unrhyw stigma a bwlio)^{xliii} Mae Ymddiriedolaeth Bwyd Ysgolion wedi datblygu Pecyn Cymorth Mae Prydau Ysgol am Ddim yn Bwysig, sy'n cynnwys cyngor ymarferol ac adnoddau (gan gynnwys posteri, llythyrau i rieni a thafleenni) er mwyn helpu ysgolion i annog plant y maent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim i'w hawlio^{xliiv}

“Nid wyf yn eu cael gan fy mod wedi sylweddoli ym Mlwyddyn 7 bod y bobl sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cael eu plagio nid oeddwn yn gallu ymdopi gyda hynny gan fy mod yn cael fy mhlagio ddigon yn barod, felly ni fyddaf yn cael prydau ysgol am ddim” merch 17 oed^{xliv}

- **Chwilio am ffyrdd o gynnig cymhorthdal er mwyn talu cost teithiau, gweithgareddau ac offer hanfodol, lle na chaiff stigma ei greu.** Yn gyffredinol, rhaid i'r gweithgareddau a gynhelir yn ystod oriau ysgol yn gyfan gwbl neu ar y cyfan fod yn rhad ac am ddim. Mae modd i ysgolion ofyn am gyfraniadau gwirfoddol, ond mae'n rhaid i bob cais nodi'n eglur mai cyfraniadau gwirfoddol fyddai'r rhain. Os na chaiff unrhyw gyfraniad ei wneud, ni ddylid trin y plentyn yn wahanol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau er mwyn helpu penaethiaid a chyrrff llywodraethu i bennu eu polisiau ynghylch codi tâl a pheidio codi tâl am weithgareddau ysgol a theithiau ysgol^{xlvi}.

- Cynnal gweithgareddau mewn dosbarthiadau sy'n creu'r cyswllt rhwng arbed ynni ac arbed arian ar filiau tanwydd, a darparu gwybodaeth i rieni sy'n amlygu'r help sydd ar gael i bobl mewn tloidi tanwydd.

Sut y mae modd i ysgolion helpu eu disgyblion i wneud penderfyniadau ariannol gwybodus?

Mae **Llythrennedd Ariannol** yn darparu'r sylfaen er mwyn galluogi pobl ifanc i wneud penderfyniadau ariannol gwybodus, sy'n gallu eu diogelu rhag wynebu tloidi pan fyddant yn oedolion.

Mae hyn yn arbennig o bwysig i bobl ifanc y maent yn cael eu gwthio tuag at 'annibyniaeth' ariannol pan fyddant yn ifanc oherwydd eu bod yn derbyn gofal neu oherwydd amgylchiadau teuluol.

Mae modd cyflwyno **addysg ynghylch cyllid personol** o fewn y Fframwaith Addysg Personol a Chymdeithasol (ABCh) ac o fewn meysydd eraill yn y cwricwlwm. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru: Addysg ariannol ar gyfer pobl ifanc rhwng 9 ac 19 oed yng Nghymru Arweiniad ar gyfer ysgolion a cholegau, yn cynnwys gwybodaeth bellach <http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/111028financial7-19en.pdf>

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu **Uned Addysg Ariannol Cymru (UAAC)** mewn partneriaeth gyda'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol er mwyn cynorthwyo'r gwaith o ddarparu addysg ariannol. Mae eu gwefan yn cynnwys cyfeiriadur o'r adnoddau sydd ar gael er mwyn cynorthwyo datblygiad galluogrwydd ariannol ymhlith plant a phobl ifanc. <http://financial-education.ngfl-cymru.org.uk/eng/f-ed-home.htm>

Mae **Grŵp Addysg Cyllid Personol**, a elwir yn pfeg hefyd (<http://www.pfeg.org/>) yn elusen addysg sy'n cynnig ystod o adnoddau y mae'r rhan fwyaf ohonynt ar gael am ddim, er mwyn addysgu addysg ariannol, yn ogystal ag astudiaethau achos o weithgareddau dysgu ac addysgu llwyddiannus.

Mae gan **Lywodraeth Cymru** wefan sy'n darparu gwybodaeth a chynghor i weithwyr proffesiynol y maent yn cynorthwyo'r gwaith o gyflwyno ABCh yng Nghymru <http://wales.gov.uk/psesub/home/?lang=en>



Adran 3: Iechyd a Lles

Mae iechyd wedi gwella'n sylweddol dros y degawdau diwethaf, ond mae'r anghydraddoldebau wedi tyfu ac mae'r gwelliannau ym myd iechyd wedi bod yn gymharol fach ymhlith y grwpiau mwy difreintiedig^{xlvi}. Mae ystadegau yn datgelu bod penderfynyddion iechyd y maent yn gysylltiedig gyda ffordd o fyw yn amrywio gydag amddifadedd^{xlvi}. Mae lefelau ysmygu, prif achos marwolaeth a salwch y mae modd ei osgoi yn y DU, ddwy rhan o dair yn uwch ymhlith oedolion sy'n preswyllo mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Ceir cydberthynas rhwng cyfoeth teuluol ac ymddygiad iechyd, gyda phlant o'r teuluoedd mwyaf cefnog yn bwyta bwyd iachach ac yn gwneud ymarfer corff yn fwy rheolaidd na phlant o gefndiroedd llai cefnog^{xlix}.

Yn aml, bydd teuluoedd tlottach yn cael anhawster wrth roi diet iach i'w plant oherwydd incwm isel, diffyg cyfleoedd i siopa mewn siopau sy'n cynnig prisiau rhesymol, neu wybodaeth annigonol ynghylch bwyta'n iach. Yn ogystal, mae ymchwil wedi dangos y gallai rhieni fod dan bwysau arbennig yn ystod y gwyliau ysgol oherwydd absenoldeb prydau ysgol am ddim.¹ Yn aml, y gyllideb ar gyfer bwyd yw'r unig ran hyblyg yng nghyllideb y teulu, a bydd yn dioddef os bydd gwariant annisgwyl yn codi.

Sut mae modd i ysgolion helpu i gynorthwyo iechyd a lles gwell?

- **Datblygu dull gweithredu ysgol gyfan tuag at iechyd**, o bosibl trwy gyfrwng Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru, sef menter gan Lywodraeth Cymru sy'n ceisio annog ysgolion i ddatblygu dull gweithredu ysgol gyfan tuag at iechyd. Mae cydlynwyr yn helpu ysgolion i nodi'r hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn bod yn iachach a'u helpu i gymryd y camau. Bydd ysgolion sy'n cymryd rhan yn y cynllun yn ystyried ystod gyfan o faterion gan gynnwys atal gordewdra a hyrwyddo iechyd meddwl cadarnhaol.
[://wales.gov.uk/topics/health/improvement/schools/schemes/?lang=en&ts=](http://wales.gov.uk/topics/health/improvement/schools/schemes/?lang=en&ts=). Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad i ymestyn Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru (RhCYIC) i leoliadau cyn ysgol. Bydd pob awdurdod lleol yng Nghymru yn recriwtio o leiaf 10 lleoliad cyn ysgol yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun (2011-12) a 5 i 10 lleoliad yn ystod blynyddoedd dilynol (2012-14).
- Gall **darparu brecwast am ddim** gael effaith gadarnhaol ar brydlondeb a phresenoldeb yn yr ysgol, yn ogystal ag ar iechyd a'r gallu i ganolbwyntio. Mae gan bob ysgol gynradd y cyfle i gymryd rhan yng nghynllun brecwast ysgol am ddim Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae angen i ysgolion sicrhau bod cynlluniau yn cael eu rhedeg mewn ffordd sy'n golygu ei bod yn hawdd i blant tlottach fanteisio arnynt, er enghraifft, mae angen ystyried a yw cludiant i'r ysgol yn ddigon hyblyg er mwyn sicrhau bod y plant yn cyrraedd yr ysgol mewn pryd. Dylai'r cyfnod brecwast fod yn brofiad pleserus er mwyn denu plant i fynychu. Os bydd ysgolion yn cymryd rhan yn y cynllun llaeth i ysgolion, mae modd i blant cynradd gael llaeth am ddim yng Nghyfnod Allweddol 1 a llaeth a gymorthdelir yng Nghyfnod Allweddol 2
[://rpa.defra.gov.uk/rpa/index.nsf/UIMenu/673FF09985FF29FF80256F72003D5B0C?](http://rpa.defra.gov.uk/rpa/index.nsf/UIMenu/673FF09985FF29FF80256F72003D5B0C?)



“Mae afalau yn eich cadw'n iach,
ond mae afalau'n ddrud” Plentyn Ifanc

xxiv

- Gallai **sicrhau bod cinio ysgol yn iach ac yn apelgar** ac annog rhagor o blant a phobl ifanc i aros i gael cinio, gael effaith fawr ar iechyd a lles plant. I nifer o blant o deuluoedd incwm isel, y pryd ysgol am ddim yw eu prif bryd mewn diwrnod. Mae Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 yn ei wneud yn ofyniad statudol bod corff llywodraethu ysgol a gynhelir yn cymryd camau er mwyn hyrwyddo yfed a bwyta'n iach ymhlith disgyblion cofrestredig yr ysgol. Rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru gynnwys gwybodaeth mewn adroddiad gan lywodraethwyr ynghylch y camau a gyrrwyd i hyrwyddo yfed a bwyta'n iach gan ddisgyblion yr ysgol. Mae Blas am Oes^{li} yn nodi safonau maeth ar gyfer bwyd mewn ysgolion. Gweler Adran 2 am wybodaeth bellach ynghylch cynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim.
- Darparu gwybodaeth am gynllun **nofio am ddim yn ystod y gwyliau ysgol** i blant a phobl ifanc 16 oed ac iau, sef cynllun gan Lywodraeth Cymru.

Mae modd cael gwybodaeth bellach am **Fenter Brecwast Am Ddim Ysgolion Cynradd** Llywodraeth Cymru gan Breakfastinfo@wales.gsi.gov.uk neu thrwy droi at wefan Llywodraeth Cymru sef <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/foodanddrink/breakfast/?lang=en>

Mae **Dewis Gwerthu Iach – Canllawiau'r Cynulliad ar Werthu mewn Ysgolion** yn darparu cyngor i swyddogion ysgolion iach, dietegwyr, arlwywyr ysgolion, Penaethiaid, athrawon a llywodraethwyr ynghylch peiriannau gwerthu mewn ysgolion.

<http://wales.gov.uk/dphhp/publication/improvement/children/publications/healthy-vending/vending-e.pdf?lang=en>

Mae gan Lywodraeth Cymru Gylchlythyr o'r enw '**Safonau Maeth Cinio Ysgol**', sy'n darparu cyngor i ysgolion ynghylch y safonau maeth statudol sy'n ofynnol ar gyfer cinio ysgol <http://new.wales.gov.uk/dcells/publications/publications/circularsindex/03/schoollunches/nafwc0303-e.pdf?lang=en>

Mae **Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru** (WNHSS) wedi paratoi adroddiad 'Mewn Persbectif', sy'n darparu astudiaethau achos o gamau gweithredu mewn ysgolion ynghylch bwyd a ffitrwydd. Mae'n darparu gwybodaeth am faeth a gweithgarwch corfforol a gyflawnir gan un ysgol o blith pob un o'r Cynlluniau Ysgolion Iach lleol, y ceir dau ar hugain ohonynt.

<http://www.physicalactivityandnutritionwales.org.uk/page.cfm?orgid=740&pid=29530>

Mae modd gweld rhagor o wybodaeth am y **fenter nofio am ddim** a ble y mae modd i blant nofio am ddim trwy droi at wefan y Cynulliad sef <http://www.sportwales.org.uk/our-programmes/public-programmes/free-swimming/about-free-swimming.aspx>

Sut mae modd i ysgolion helpu i wella iechyd meddwl a lles emosiynol plant?

Mae byw mewn tlodi yn gallu cynyddu'r lefelau straen ar aelodau teuluol, ac yn ei dro, gall hyn arwain at lai o gymorth a gwaith paratoi ar gyfer gwaith academiaidd a lefelau uwch o ran problemau iechyd meddwl ymhlith y glasoed. Mae gan ysgolion rôl hanfodol wrth hyrwyddo iechyd meddwl plant, gan sicrhau bod problemau iechyd meddwl yn cael eu hadnabod yn gynnar a bod modd i'r plant hynny fanteisio ar help a chymorth.

Bellach, mae nifer o ysgolion yn dechrau mabwysiadu dull gweithredu ysgol gyfan tuag at lythrennedd emosiynol, yn ogystal â'r sgiliau craidd eraill yn y cwricwlwm. Mae gwella amgylchedd emosiynol ysgol yn gallu cael effaith ar ddysgu, lles ac ymddygiad. Mae llythrennedd emosiynol yn

ymwneud â'r ffordd y mae pobl yn rhyngweithio gyda'i gilydd mewn ffordd sy'n meithrin dealltwriaeth o'u hemosiynau nhw ac o emosiynau pobl arall, ac yna, defnyddio'r ddealltwriaeth hon er mwyn effeithio ar eu gweithredoedd. Mae angen cymorth ar bobl ifanc er mwyn iddynt ddeall yr hyn y maent yn ei deimlo, mae angen rhoi pwyslais ar feithrin perthnasoedd da rhwng athrawon a'u disgyblion a rhwng disgyblion. Mae modd annog plant i fynegi meddyliau ac emosiynau, i ymateb i'w gilydd, i gydweithio ac i gael cymorth er mwyn datrys gwrthdaro mewn ysbryd da.

Dylai ysgolion sicrhau bod gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion Llywodraeth Cymru a mentrau cysylltiedig yn cael eu hyrwyddo mewn ffordd effeithiol a bod plant o gefndiroedd difreintiedig yn manteisio arnynt.

Mae Meddwl yn Gadarnhaol: Iechyd a Lles Emosiynol mewn Ysgolion a Lleoliadau Blynyddoedd Cynnar yn ddogfen arfer da gan Lywodraeth Cymru, sy'n ceisio cynorthwyo ysgolion a lleoliadau Blynyddoedd Cynnar i hyrwyddo iechyd a les emosiynol. Darparir enghreifftiau o arfer da yng Nghymru trwy gydol y ddogfen, sy'n cynnwys cyfeiriadau at adnoddau a ffynonellau cymorth hefyd. Dylai ysgolion sicrhau bod gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion Llywodraeth Cymru a mentrau cysylltiedig yn cael eu hyrwyddo mewn ffordd effeithiol, a bod plant o gefndiroedd difreintiedig yn manteisio arnynt. Ceir gwybodaeth am fynd i'r afael â bwllo ar dudalen 19.

“Os bydd angen arian ar fy nhad ac nid oes gan mam unrhyw arian, byddant yn ffraeo” Person Ifancxxiv

Mae **PATHS** (Hyrwyddo Strategaethau Meddwl Amgen) yn rhaglen mewn ysgolion ar gyfer grŵp oedran 7 – 11 oed, sy'n canolbwyntio ar hunanreolaeth, dealltwriaeth emosiynol a datrys problemau. Er mai rhaglen Americanaidd ydyw, caiff ei defnyddio yn y DU, gan gynnwys yn Sir y Fflint. <http://www.channing-bete.com/prevention-programs/paths/paths.html>

Mae **Cwricwlwm Ystafell Ddosbarth Dina Dinosor y Blynyddoedd Rhyfeddol** o gymorth hefyd wrth helpu i ddatblygu llythrennedd emosiynol yn ystod y blynyddoedd cynnar. Ceir fersiwn ar gyfer y dosbarth cyfan, y mae'n rhedeg trwy'r dair blynedd o fewn cyfnod allweddol un. www.incredibleyears.wales.co.uk

Mae **Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu (SEAL)** ar gyfer ysgolion cynradd yn ddull gweithredu ysgol gyfan tuag at hyrwyddo sgiliau emosiynol a chymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru wedi addasu a chyfieithu'r deunyddiau, sy'n cynnwys llyfryn arweiniad er mwyn cynorthwyo ysgolion i fabwysiadu SEAL a gwasanaethau a syniadau addysgu. <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolhome/curriculuminwales/pseaseal/primaryresources/jsessionid=pXbtN3vdlhlGhTYfQTvn820nqh9Z9Gpb9vWbCjP0GvJJsCLK2lmp!395851124?lang=en>

Mae **rhaglen DEAL y Samariaid** (Datblygu Ymwybyddiaeth Emosiynol a Dysgu) yn adnodd ar gyfer ysgolion, a gynlluniwyd er mwyn gwella iechyd emosiynol pobl ifanc 14-16 oed a meithrin y sgiliau y mae eu hangen ar bobl ifanc er mwyn iddynt allu ymdopi gyda sialensiau bywyd. Mae cynlluniau gwersi, fideos a recordiadau sain ar gael yn rhad ac am ddim ar wefan y Samariaid. Mae rhai o ganghennau'r Samariaid yn gweithio mewn ysgolion gan gynnig anerchiadau ar gyfer myfyrwyr, staff neu rieni. http://www.samaritans.org/your_emotional_health/work_in_schools.aspx

Mae gan Lywodraeth y Cynlluniad strategaeth er mwyn datblygu **gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion** ar gyfer plant a phobl ifanc. Yn ystod cam cyntaf y strategaeth, cynigir darpariaeth ar gyfer disgyblion uwchradd. Trowch at wefan Llywodraeth Cymru am ragor o wybodaeth <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/counsellingservicesstrategy/?lang=en>

Mae **Meic yn llinell gymorth newydd i blant a phobl ifanc** dan 25 oed yng Nghymru, sy'n darparu gwybodaeth, cyngor defnyddiol a chymorth. Ffôn: 080880 23456 Negeseuon testun: 84001 Negeseua Gwib/gwe-sgwrs: www.meiccymru.org. Dylid rhestru'r manylion cyswllt mewn deunyddiau perthnasol disgyblion, megis dyddiaduron gwaith cartref neu gynllunwyr ysgol

“Byddaf yn gofidio am mam ac os bydd hi'n anhapus. Weithiau, byddaf yn gofidio os nad oes digon o arian gennym, byddaf yn gofidio am hynny.” merch 15 oed^{xlvi}

Sut mae modd i ysgolion adnabod a chynorthwyo plant a phobl ifanc y maent wedi cael profiad o gam-drin domestig?

Mae pob ysgol yng Nghymru yn cynnwys plant sy'n profi cam-drin domestig neu y maent wedi profi cam-drin domestig yn y gorffennol, ac mae hyn yn gallu effeithio ar eu gallu i ganolbwyntio, gan arwain at ganlyniadau yn y tymor hir. Mae cam-drin domestig yn gallu arwain at sefyllfa lle y bydd teuluoedd yn ddigartref ac yn byw mewn tai neu lochesi dros dro. Mae ystadegau a ryddhawyd yn ddiweddar ynghylch digartrefedd yn datgelu bod 18 y cant o'r achosion wedi digwydd o ganlyniad i drais yn erbyn aelodau'r aelwyd.^{lii} Mae modd i ysgolion fynd i'r afael â cham-drin domestig yn ystod gwaith ABCh, er mwyn helpu i newid agweddau a chynnig cymorth i'r rhai sy'n dioddef cam-drin domestig.

“Mae (cam-drin domestig) yn cymryd drosodd nid oeddwn yn gallu canolbwyntio, roeddwn yn gofidio am mam drwy'r amser....” Person Ifanc^{liii}

Mae dogfen Llywodraeth Cymru, **'Gwybodaeth a Chanllawiau ar Gam-drin Domestig: Diogelu Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru** yn cynnwys dangosyddion a gwybodaeth ymarferol arall er mwyn helpu i nodi a chynorthwyo plant y gallent fod yn wynebu cam-drin domestig yn y cartref. Dylid rhestru rhif y linell gymorth cam-drin domestig (Llinell Gymorth Cymru ar gyfer Cam-drin Domestig, sydd ar gael 24 awr y dydd ac y mae'n rhif Rhadffôn, 0808 80 10 800) yn neunyddiau perthnasol Disgyblion megis dyddiaduron gwaith cartref neu gynllunwyr ysgol

Mae gan Lywodraeth Cymru wefan sy'n darparu gwybodaeth a chyngor i weithwyr proffesiynol y maent yn cynorthwyo'r gwaith o gyflwyno ABCh yng Nghymru, <http://wales.gov.uk/psesub/home/?lang=en>

Adran 4: Helpu plant tlotach i lwyddo yn yr ysgol

Er bod nifer o blant o deuluoedd incwm isel yn gwneud yn dda iawn yn yr ysgol, yn gyffredinol, gwelir cysylltiadau eglur rhwng tlodi a diffyg cyrhaeddiad.^{xvii} Mae hyn yn arwain at ragolygon is o ran cyflogaeth a chylch difreintiedig. Gan mwyaf, mae plant tlawd yn tueddu i ddatblygu i fod yn oedolion tlawd.

- Mae lefelau cyrhaeddiad pan fydd disgyblion yn 14 ac yn 16 oed wedi gwella, ond mae cyfradd y cynnydd wedi arafu ac yn gyffredinol, mae'n waeth nag y mae mewn gwledydd a rhanbarthau eraill yn y DU. Nid yw pedwar ar ddeg y cant o bobl ifanc 16 oed yn llwyddo i sicrhau pum TGAU ar unrhyw lefel^{xxxiii}.
- Beth bynnag fo'r gwahaniaethau rhwng y ddau ryw, roedd disgyblion 11 oed yr oeddent yn gymwys i fanteisio ar brydau ysgol am ddim, ddwywaith yn fwy tebygol o fethu cyrraedd y safonau sylfaenol yn Saesneg ac ym mathemateg ag yr oedd eraill^{xvii} Mae gwaith ymchwil^{lv} a gynhaliwyd yn ddiweddar wedi dangos bod symudedd cymdeithasol wedi gwastadu. Daeth ymchwilwyr i'r casgliad bod y cyswllt rhwng cyrhaeddiad addysgol a symudedd cymdeithasol yn ganolog i'r symudedd cymdeithasol isel hwn

“Mae angen anogaeth arnoch – rhywun y tu ôl i chi
.....cariad eich teulu, cyngor a help er mwyn
i chi allu credu eich bod yn gallu ei gyflawni” Person
Ifanc^{xxxiv}



Ceir nifer o resymau dros y ffaith nad yw plant tlotach yn gwneud cystal ag y dylent ei wneud:

- Diffyg adnoddau materol (gweler adran 1), lle a chymorth er mwyn cwblhau eu gwaith cartref ac mae incwm cyfyngedig yn gallu cyfyngu ar y cyfleoedd i fanteisio ar weithgareddau a gwasanaethau, a gweithgareddau a chyfleoedd pob dydd eu cyfoedion
- Byw mewn tai annigonol a gorlawn^{xii}
- Mae teuluoedd tlawd yn fwy tebygol o ddioddef tlodi tanwydd, ac yn methu fforddio gwresogi eu cartrefi mewn ffordd ddigonol. Pan na fydd gan blant ystafell gynnes a thawel i astudio neu pan fyddant yn absennol o'r ysgol oherwydd salwch sy'n gysylltiedig gydag oerfel neu leithder, mae hyn yn cael effaith negyddol ar addysg.
- Uchelgais isel rhieni a chred ganddynt na fydd eu gweithredoedd yn cael unrhyw effaith ar lwyddiant eu plentyn yn yr ysgol^{lv}.
- Cael mam nad oes ganddi lawer iawn o gymwysterau addysgol^{lvi}
- Disgwyliadau a dylanwad grŵp cyfoedion y plentyn
- Effaith stigma, bwlio a theimlad nad ydynt yn cael eu parchu
- Straen ar fywyd teuluol a achosir gan dlodi. I rai plant, mae straen yn y cartref yn arwain at anawsterau emosiynol neu ymddygiadol, a risg uwch y byddant yn cael eu gwahardd neu na fyddant yn mynychu
- Lefelau uwch o ran anghenion addysgol arbennig^{xii}
- Mae byw mewn ardal ddifreintiedig yn gysylltiedig gyda chyrhaeddiad addysgol gwael^{xxviii} a bod yn rhiant ifanc^{lvii}

- Pan fyddant yn y cyfnod uwchradd, bydd nifer o blant yn ymddieithrio, gan ystyried bod addysg ac ysgol yn rhywbeth diflas ac amherthnasol
- Yng nghyflwyniad y ddogfen hon, gwnaethom nodi'r plant y maent yn fwyaf tebygol o fod yn dlawd. Mae'r plant hyn yn agored i dangyflawni a chael profiadau addysgol gwael hefyd, ac efallai y bydd angen targedu camau gweithredu penodol ar eu cyfer.

Beth sy'n helpu plant tlotach i lwyddo?

Canfu **Estyn**^{lviii} xxviii bod rhai ysgolion yn llwyddo er gwaethaf amgylchiadau heriol. Roedd yr adroddiad yn gwneud yr argymhellion canlynol:

- Datblygu dull gweithredu mwy systematig tuag at wella safonau dysgwyr difreintiedig, sy'n cynnwys nodi'r dysgwyr hyn, eu cynorthwyo, ac olrhain a monitro eu cynnydd;
- Gwerthuso effaith strategaethau er mwyn mynd i'r afael ag anfantais ar gyflawniad dysgwyr
- Sicrhau bod y cwricwlwm cyfan, gan gynnwys y ddarpariaeth y tu allan i oriau ysgol, yn cynorthwyo anghenion dysgwyr difreintiedig;
- Gweithio gyda phartneriaid er mwyn datblygu datrysiadau ar gyfer problemau anfantais, gan gynnwys gweithio gydag ysgolion eraill mewn ffordd fwy effeithiol

Mae gan **ddarpariaeth y Blynnyddoedd Cynnar rôl** hanfodol wrth wella canlyniadau plant ac mae'n hysbys bod profiadau cynharaf plant yn cael dylanwad go iawn ar eu cyflawniadau wrth iddynt dyfu^{lix}. Cynlluniwyd mentrau megis Dechrau'n Deg er mwyn rhoi cyfleoedd gwell i blant difreintiedig yn gynnar, ond nid yw'r rhain ar gael ym mhob ardal. Mae angen cymorth a help parhaus ar nifer o blant a rhieni er mwyn eu helpu i gynnal gwelliannau cynnar.

Cynlluniwyd **Rhaglenni Addysgol** er mwyn helpu plant difreintiedig i ddal i fyny gyda'u cyfoedion. Mae Catch Up/Dyfal Donc (www.catchup.org.uk), er enghraifft, ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mae'n effeithiol wrth hyfforddi athrawon a chynorthwyyr dysgu i gyflwyno rhaglenni llythrennedd mewn ffordd effeithiol. Mae ContinYou Cymru yn cynorthwyo ac yn hyrwyddo gweithgareddau y tu allan i oriau trwy gyfrwng rhaglenni megis clybiau brecwast a gwobrau dinasyddiaeth.

Mae **disgwyliadau uchel ond realistig gan athrawon** yn gallu dylanwadu ar uchelgais plant, ee, gweld addysg bellach neu addysg uwch fel nod realistig. Mae Anogwyr Dysgu yn gallu cynorthwyo gyda hyn hefyd^{lxvi}.

Mae **polisiau derbyn** sy'n hyrwyddo cymysgedd gymdeithasol dda yn gallu codi safonau. Mewn astudiaeth a gynhaliwyd mewn 24 gwlad OECD, canfu UNICEF^{lx} bod disgyblion o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd is yn cael budd o fynychu ysgolion lle y caiff ystod eang o gefndiroedd o ran cartrefi eu cynrychioli.

Mae **cychwyn Clwb Gwaith Cartref** yn rhoi cymorth i blant nad oes ganddynt y lle, y cyfleusterau neu'r cymorth angenrheidiol yn y cartref er mwyn gwneud eu gwaith cartref. Mae gan Contin You Cymru adnodd ar y we sy'n cynnwys gwybodaeth a chyngor ymarferol ynghylch trefnu dysgu y tu allan i oriau, ac mae'n cynnwys canllawiau byr ar gyfer rhieni a phlant.

[://www.continyou.org.uk/wales_cymru/out_of_school_hours_learning/](http://www.continyou.org.uk/wales_cymru/out_of_school_hours_learning/)

Dulliau gweithredu Ysgol Gyfan tuag at Gyfranogi a Chynhwysiant

Rydym yn gwybod gan blant a phobl ifanc difreintiedig nad agweddau materol eiddo sy'n peri niwed yn unig, ond hefyd, y teimlad o gael eu hynysu ac o beidio cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae dulliau gweithredu sy'n modelu parch ar gyfer plant o gefndiroedd amrywiol, ac y maent yn cynnwys disgyblion mewn penderfyniadau ynghylch materion sy'n effeithio arnynt, yn gallu helpu i feithrin cymhelliant ac i fwynhau dysgu. Yn ogystal, mae pobl ifanc yn dymuno cael athrawon sy'n deall eu sefyllfaoedd ac sy'n ceisio'u helpu i ddatrys problemau.

“Athrawon yn fwy goddefgar ac yn fwy parod i siarad gyda chi er mwyn datrys problemau” Person Ifanc yn ymateb i ymgynghoriad Gweithredu dros Blant ynghylch cynorthwyo a chynnwys disgyblion

Mae Cyngorau Ysgol yn un elfen o weithgarwch cyfranogi disgyblion, ond mae modd iddynt gael eu hystyried fel symboleiddiaeth os nad ydynt yn rhan o ethos cyffredinol cynnwys disgyblion ym mywyd yr ysgol. Er mwyn i'r holl ddisgyblion allu manteisio ar y Cyngor Ysgol, ni ddylai cynrychiolwyr etholedig gyfarfod nes bydd trafodaeth go iawn wedi digwydd mewn dosbarthiadau. Mae enghreifftiau o gyfranogi yn cynnwys: cynnwys disgyblion yn y broses o ddatblygu polisiau ysgol ynghylch cydraddoldeb, ymddygiad, bwlio; cynnwys disgyblion mewn gweithgarwch recriwtio staff; cymorth ar gyfer cyfoedion, prosiectau cyfryngu a mentora cyfoedion. Efallai y bydd angen yr anogaeth fwyaf ar y plant mwyaf difreintiedig i gymryd rhan.

Mae Offeryn Hunanwerthuso Llywodraeth Cymru ar gyfer Llais y Disgybl yn helpu staff a disgyblion i werthuso cyfranogiad disgyblion, i gasglu tystiolaeth am weithgarwch, ac i gysylltu hyn gyda chanlyniadau gwell ar gyfer disgyblion a'r ysgol gyfan. Mae'r offeryn yn helpu ysgolion i wneud hyn yng nghyd-destun y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (FfEY) a defnyddio'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc i Gymru (gweler y bocs isod).

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllaw “**Undod ac Amrywiaeth**” ynghylch cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth ethnig, diwylliannol, ieithyddol a chrefyddol yn y cwricwlwm ysgol yng Nghymru.

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/100914unityanddiversityen.pdf>

Yn ogystal, mae gan y **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** ganllaw ar gyfer ysgolion “Yr hyn y mae cyfraith cydraddoldeb yn ei olygu i chi fel darparwr addysg: ysgolion”

www.equalityhumanrights.com

Mae **Canolfan Astudiaethau Addysg Gynhwysol** (CSIE) yn ganolfan annibynnol sy'n cynorthwyo addysg gynhwysol mewn ffordd weithredol. Mae Mynegai Cynhwysiant: datblygu dysgu a chyfranogi mewn ysgolion (Diwygiwyd 2011) yn cynnwys set o ddeunyddiau er mwyn helpu ysgolion i nodi a chael gwared ar y rhwystrau sy'n atal dysgu a chyfranogi. <http://www.csie.org.uk/publications/inclusion-index-explained.shtml>

Mae **Y Cyngor Ysgol: Canllaw i blant** – yn ganllaw cam wrth gam cynhwysfawr, a baratowyd gan Achub y Plant er mwyn datblygu a chynnal cyngor ysgol. Mae'n darparu deunydd astudiaeth achos; syniadau ar gyfer etholiadau; cyfarfodydd; a gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau.

<http://www.savethechildren.org.uk/resources/online-library/the-school-council-a-childrens-guide>

Mae gwefan **Llais Disgyblion Cymru** yn cynnwys gwybodaeth, deunyddiau hyfforddi ac enghreifftiau arfer da er mwyn helpu ysgolion i sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfleoedd i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch eu dysgu a'u cymuned yn yr ysgol. Mae modd lawrlwytho **Canllaw Arfer Da – Cyfranogiad Disgyblion** ac **Offeryn Hunanwerthuso ar gyfer Llais Disgyblion** o'r wefan. <http://www.pupilvoicewales.org.uk/>.

Yng nghynllun llysgenhadon **Comisiynydd Plant Cymru**, bydd ysgolion cynradd ar draws Cymru yn ethol dau lysgennad bob blwyddyn. Eu rôl nhw yw codi ymwybyddiaeth ymhlith eu cyfoedion o rôl Plant a Chonfensiwn CU ar Hawliau'r Plentyn. Mae'n cysylltu gyda sawl agwedd ar gwricwlwm cyfnod allweddol 2 yng Nghymru, a'r Fframwaith Addysg Personol a Chymdeithasol yn benodol. Am wybodaeth bellach, trowch at: www.childcomwales.org.uk/en/school-ambassadors

Mae NSPCC wedi paratoi canllaw ar gyfer ysgolion o'r enw ‘**Peer Mediation in the UK: A Guide for Schools**’ http://www.nspcc.org.uk/Inform/publications/downloads/peermediationintheUK_wdf48055.pdf.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu Canllawiau ar gyfer ysgolion ac AALLau ynghylch Cynhwysiant a Chymorth ar gyfer Disgyblion <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/circulars/2463797/?lang=en>

Mesurau effeithiol er mwyn delio gyda bwlio

Mae plant y mae ganddynt nodweddion sy'n golygu eu bod yn "wahanol" i'r mwyafrif yn gallu bod yn destun bwlio, rhagfarn a gwahaniaethu, ar lefel personol neu ar lefel sefydliadol. Mae nifer fawr o blant wedi amlygu'r ffaith mai bwlio yw'r peth sy'n peri'r pryder mwyaf iddynt, gan gyfleu hyn i Gomisiynydd Plant Cymru.^{xi} O gael eu trin mewn ffordd ansensitif, mae prydau ysgol am ddim a pheidio meddu ar y wisg ysgol gywir yn gallu cynnig fflachbwynt ar gyfer bwlio.

"Os nad oes gennych y math cywir o esgidiau yn ein hysgol ni, byddwch yn cael eich bwlio neu bydd pobl yn galw enwau arnoch chi. Dyma'r rheswm pam nad ydym yn gwisgo esgidiau ymarfer mwyach. [Ond] hyd yn oed gydag esgidiau, byddant yn dweud yr un peth. Os na fyddwch yn gwisgo [enw brand], maent yn debygol o'ch bychanu"

Person Ifanc xli

Roedd astudiaethau a gynhaliwyd gan Achub y Plant^{xiv} a Grŵp Gorchwyl Tlodi Plant Cymru^{xxiii}, y buont yn ystyried tlodi o bersbectif plentyn, wedi canfod bod plant yn adrodd eu bod yn teimlo fel pe baent yn cael eu bwlio, eu hynysu a'u gadael allan. Mae angen i staff fod yn ymwybodol o'r stigma y bydd plant a phobl ifanc yn ei deimlo mewn perthynas â thlodi, ac effaith hyn ar eu profiad yn yr ysgol. Mae grwpiau eraill hefyd, fel plant anabl, Plant sy'n Derbyn Gofal, Sipsiwn/Teithwyr a phlant grwpiau ethnig lleiafrifol yn agored i gael eu bwlio hefyd. Gall hyn arwain at wrthod mynychu'r ysgol neu dangyflawni. Mae plant a phobl ifanc yn teimlo'n gryf y dylai ysgolion wneud mwy er mwyn mynd i'r afael â bwlio.

"Mae'r bechgyn mawr yn codi fy ngwrychyn ac yn fy mhryfocio gan bod gen i anghenion arbennig. Maent yn boen" Person Ifanc^{lxii}

Mae Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo ysgolion i ddatblygu polisiau mewn perthynas â'i chanllawiau gwrth-fwlio, **Parchu eraill: canllawiau gwrth-fwlio 2011**. Mae cyfres o ddeunyddiau gwrth-fwlio sy'n darparu arweiniad a datrysiadau ymarferol ynghylch atal ac ymateb i fwlio mewn ysgolion ar gael i'w lawrlwytho o'u gwefan

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/circulars/antibullying/?lang=en>

Mae **CHIPS (ChildLine mewn Partneriaeth ag Ysgolion)** yn cynnig hyfforddiant a gwybodaeth i staff a disgyblion er mwyn iddynt allu sefydlu cynlluniau cymorth ar gyfer cyfoedion, yn ogystal â gwybodaeth am yr holl faterion y maent yn effeithio ar les disgyblion yng Nghymru, gan gynnwys ymwybyddiaeth o fwlio. Am wybodaeth bellach, trowch at

<http://www.childline.org.uk/Play/GetInvolved/Pages/School.aspx>

Mae **Curobwlio** yn darparu pecynnau cymorth gwrth-fwlio ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac maent yn cynhyrchu cyhoeddiadau, adnoddau a deunyddiau addysgol papur ac electronig, cynlluniau e-fentora ac e-ddysgu a gynlluniwyd ar y cyd gyda phobl ifanc ac ar gyfer pobl ifanc.

<http://www.beatbullying.org/>

Mesurau effeithiol er mwyn delio gyda thriwantiaeth a dadrithiad yn yr ysgol

Mae plant y maent yn cael eu gwahardd o'r ysgol yn agored i niwed allgáu cymdeithasol,^{xxiii} troseddau^{lxiii} a thangyflawni addysgol^{lxxv}, a allai gynyddu risg tlodi pan fyddant yn oedolion. Ceir gorynrychiolaeth grwpiau agored i niwed, megis plant yn y system ofal, rhai grwpiau ethnig lleiafrifol, a phlant y mae ganddynt anghenion addysgol arbennig, yn y niferoedd sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol.^{lxxv} Felly, mae datrysiadau effeithiol ar gyfer dadrithiad yn yr ysgol yn bwysig er mwyn trechu tlodi. Er gwaethaf y gydberthynas rhwng absenoliaeth ac amddifadedd, ceir gwahaniaeth sylweddol rhwng awdurdodau lleol,^{lxiv} felly mae modd i bolisiau ysgol gael effaith. Yn ogystal, gwelir cydberthynas rhwng cyfraddau triwantiaeth a dosbarth cymdeithasol, a gyda diweithdra ymhlith rhieni.^{xxiii} Mae triwantiaeth yn gysylltiedig gyda chyflawniad academiaidd gwaell^{vi}, a allai arwain at ymddieithrio pellach, ynysu a digartrefedd.

Y strategaethau mwyaf cyffredin a ddefnyddir yn y DU er mwyn meithrin cymhelliant ymhlith disgyblion y maent mewn perygl o ymddieithrio yw cynlluniau ymddygiad/addysg unigol, deialog rhwng yr ysgol a'r cartref, gweithgareddau llythrennedd emosiynol, cwnsela a systemau gwobrwyo a mentora. Dangoswyd bod gweithwyr ieuencid a gweithwyr cymorth y maent wedi cael hyfforddiant ym maes gwaith cymdeithasol, ac y maent yn gweithio mewn ysgolion uwchradd, yn gwneud gwahaniaeth.^{lxiii} Yn ogystal, defnyddiwyd Anogwyr Dysgu mewn ffordd lwyddiannus yng Nghymru^{lxv} ac mae 'Canllawiau Dogfen Gwasanaethau Cymorth i Ddysgwyr a Llwybrau Dysgu' Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau i ysgolion uwchradd ynghylch darparu, sicrhau neu gyfranogi yn y broses o ddarparu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr.^{lxvi} Mae prosiectau pontio, y maent yn cynorthwyo plant wrth iddynt symud i'r ysgol uwchradd, wedi cael adborth addawol gan staff ysgol.

^{lxvii}

“..... oherwydd weithiau, ni fydd pobl yn mynd i'r ysgol gan nad oes gan eu rhieni swydd, maent yn teimlo'n isel ac yn grac, ac nid y rhieni yn unig yw hyn.” bachgen 15 oed^{xli}

Nid oes modd i athrawon fod yn ymwybodol o amgylchiadau plant yn eu cartref bob amser, ond gallant siarad gyda disgyblion a rhieni a'u cyfeirio at asiantaethau priodol os bydd angen gwasanaethau cymorth arnynt. Mae angen i ysgolion fod yn rhan o rwydwaith o asiantaethau statudol a grwpiau cymunedol a gwirfoddol y gweler cyswllt agos rhyngddynt, y maent yn gallu ymyrryd yn gynnar er mwyn cynorthwyo disgyblion anniddig a'u teuluoedd. Gweler yr adran ynghylch cynorthwyo lles emosiynol plant.

Mae **INCLUDE** yn elusen sy'n ceisio mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol ymhlith pobl ifanc trwy gyfrwng cyfuniad o waith aml-asiantaeth, cymorth unigol ar gyfer y person ifanc a gweithgarwch ymgysylltu gyda'r teulu a'r gymuned ehangach. <http://www.include.org.uk/> Mae mudiadau gwirfoddol eraill yn darparu'r math hwn o gymorth hefyd.

Byddai modd defnyddio **Graddfa Raddio Agweddau Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol (P.A.S.S.)** er mwyn helpu i ddeall agweddau dysgwyr a chymhelliant disgyblion. Mae effeithiolrwydd y dull gweithredu hwn yn dibynnu ar ansawdd y data a gesglir gan ysgolion a medr athrawon wrth ei ddefnyddio er mwyn cyfrannu at eu hymyriadau. <http://w3insights.pass-survey.com/index.htm>

Comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru **Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb (NBAR)** a oedd yn ystyried arfer da wrth fynd i'r afael gyda materion yn ymwneud ag ymddygiad a phresenoldeb, gan wneud argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/reports/nbarreview/?lang=en>

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu **Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru** mewn partneriaeth gyda Gwasanaeth Lles Addysg (EWS). Mae adran 3 yn cynnwys canllaw arfer da i ysgolion, sy'n cynnwys strategaethau ac astudiaethau achos er mwyn helpu i wella presenoldeb a rheoli hwylder <http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/110308section3en.pdf>

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu Canllawiau i ysgolion ac AALLau ynghylch **Cynhwysiant a Chymorth ar gyfer Disgyblion**, sy'n cynnwys cyngor am driwantiaeth a gwahardd <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/circulars/2463797/?lang=en>

Cymorth ychwanegol ar gyfer grwpiau agored i niwed

- **Plant lleiafrifoedd ethnig** – Roedd adroddiad gan Gymdeithas Saesneg fel Iaith Ychwanegol yng Nghymru^{lxviii} yn dangos bod cyrhaeddiad disgyblion o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru yn is na'r cyrhaeddiad cyfartalog cenedlaethol, ond bod cryn dipyn o amrywiaeth rhwng cymunedau. Roedd incwm teuluol yn ffactor arwyddocaol, ynghyd â lefel addysg y rhieni, lefel eu sgiliau Saesneg, hiliaeth a gwahaniaethu, ffactorau diwylliannol, absenoldebau estynedig a gwybodaeth a hyder athrawon.
- Nid yn unig y mae **plant ceiswyr lloches** yn wynebu sefyllfa lle y byddant yn byw ar incwm y mae lawer yn is na lefelau cynhaliaeth^{lxix} ond mae ganddynt y pwysau ychwanegol a achosir gan drawma yn y gorffennol ac ansicrwydd ynghylch eu dyfodol^{lxx}
- Mae **plant anabl** yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi ac efallai y byddant yn wynebu problemau sy'n ymwneud gyda mynediad, cynhwysiant a diffyg offer priodol hefyd^{lxxi}. Bydd nifer o blant anabl yn gadael yr ysgol heb gymwysterau, ac mae hyn yn effeithio ar eu rhagolygon o sicrhau cyflogaeth yn y dyfodol.
- **Plant Teithwyr/Sipsiwn** sy'n dangos y cyrhaeddiad isaf o blith unrhyw ~~yp~~ a chyfraddau gwahardd uchel.^{lxxii} Mae symud yn aml, agwedd rhieni at addysg ffurfiol a diffyg dealltwriaeth o'u diwylliant ymhlith ysgolion yn rhai o'r rhwystrau y byddant yn eu hwynebu^{lxxiii}. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae staff addysg teithwyr yn cydweithio'n agos gyda swyddogion lles addysg er mwyn gwella lefelau presenoldeb disgyblion y maent yn Deithwyr / Sipsiwn.
- Mae gan **ofalwyr ifanc** gyfrifoldebau yn y cartref sy'n gallu golygu eu bod yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr, nad ydynt yn gallu cwblhau gwaith cartref neu y byddant yn pryderu am y cartref pan fyddant yn yr ysgol
- Efallai y bydd **plant yn y system ofal** wedi gorfod symud yn aml ac efallai na fydd ganddynt hyder a chymhelliant oherwydd eu hamgylchiadau. Maent mewn perygl o dangyflawni ac o gael eu gwahardd^{lxxiv}
- Mae **beichiogrwydd yn yr arddegau** yn gysylltiedig gyda risg uwch y bydd y fam a'r plentyn yn dioddef canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac iechyd gwael^{lxxv}. Efallai y byddai'n llawer haws i rieni yn eu harddegau adael byd addysg na sicrhau cydbwysedd rhwng rhianta a gwaith academiaidd, oni bai eu bod yn cael cymorth o'r math cywir, gan gynnwys gofal plant priodol
- Efallai y bydd **plant mewn llety dros dro** wedi gorfod symud yn aml. Roedd ymchwil a gynhaliwyd gan Shelter yn dangos bod plant mewn llety dros dro wedi colli 55 diwrnod ysgol ar gyfartaledd mewn blwyddyn^{lxxvi}. Roedd plant yn disgrifio'r problemau yr oeddent yn eu hwynebu wrth symud cartref a gwneud ffrindiau newydd a chael eu bwlio. Mae Shelter Cymru^{lxxvii} yn amcangyfrif bod 20,000 o blant yng Nghymru yn byw mewn tai gwael, sy'n gallu arwain at iechyd gwael a datblygiad addysgol a chymdeithasol gwael.^{lxxviii} O ganlyniad i ddiffyg lle, amodau gwael a gorlenwi, yn aml, ni fydd gan y plant hyn le tawel i wneud eu gwaith cartref, gallant ddioddef straen emosiynol, teimlo'n fregus ac wedi'u hynysu ac efallai, er enghraifft, y bydd aelodau teuluol eraill yn tarfu ar eu cwsg

“...am bedwar mîs, ni wnaethom fynd i'r ysgol, buom mewn chwech^{ŷt} na saith^{ŷt} a chwech ysgol newydd; ...nid wyf yn hoffi symud

oherwydd byddaf yn gwneud ffrindiau newydd bob tro ac yna, bydd yn rhaid i mi symud eto ac eto.” merch 10 oed^{lxxiii}

- **Rhyw**

Caiff oddeutu pedair gwaith yn fwy o fechgyn na merched eu gwahardd yn barhaol o ysgolion Cymru. Yn ogystal, mae lefelau cyrhaeddiad bechgyn lawer yn is na lefelau cyrhaeddiad merched^{lxxv}. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r cwricwlwm yn cael ei ddarparu yn y ffordd orau ar gyfer bechgyn. Fodd bynnag, mae menywod mewn mwy o berygl o ddioddef tlodi na dynion.^{xii} Gall ysgolion godi uchelgais merched a herio argraffiadau bechgyn a merched ynghylch y gwahaniaethau rhwng y ddau ryw, trwy roi sylw i'r cwricwlwm a addysgir a'r cwricwlwm cudd. Mae'r cwricwlwm cudd yn ymwneud gyda'r ethos a'r gwerthoedd sy'n cael eu dysgu a'u hannog o fewn ysgol, er na chaiff hyn ei wneud mewn ffordd ymwybodol o reidrwydd. Efallai y bydd angen i ysgolion ystyried yr hyn y gofynnir i blant ei wneud ar sail eu rhyw, er enghraifft, dyletswyddau yn yr ystafell ddosbarth, chwaraeon, glanhau safle, helpu i baratoi prydau ac ati. Er mwyn sicrhau bod anghenion amrywiol bechgyn a merched yn cael eu bodloni, efallai y bydd angen i ysgolion ystyried cynnwys y cwricwlwm, arddull addysgu, rheolaeth yn yr ystafell ddosbarth ac asesu



Mae arweiniad a gwybodaeth bellach ynghylch y grwpiau a restrir uchod ar gael yng Nghanolawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ysgolion ac AALLau ynghylch **Cynhwysiant a Chymorth ar gyfer Disgyblion**, sy'n cynnwys cyngor am addysg rhieni ifanc <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/circulars/2463797/?lang=en>

DVD yw **'Un Gymru, Sawl Llais'**, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynnig canllawiau arfer gorau wrth ddiwallu anghenion disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Anfonwyd copi o'r DVD i bob ysgol yng Nghymru yn 2010. Nod Prosiect Iaith a Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (yn cael ei ariannu gan ESF tan 2013) yw codi lefelau cyrhaeddiad plant a phobl ifanc o leiafrifoedd ethnig ym Mlaenau Gwent, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe.

Mae Estyn^{lxx} a Llywodraeth Cymru wedi paratoi canllawiau ynghylch gwella addysg disgyblion y maent yn Deithwyr / Sipsiwn

Mae Shelter Cymru wedi cynhyrchu pecyn **"Agor Drysau"** sydd ar gael yn rhad ac am ddim i bob ysgol uwchradd yng Nghymru. Mae'n cynnwys deunydd i'w lun-gopïo ar gyfer Cwricwlwm ABCh. Mae'n cynnwys gwybodaeth ynghylch codi ymwybyddiaeth o ddigartrefedd a gwybodaeth a fyddai'n gallu eu helpu i gael profiad llwyddiannus wrth iddynt adael eu cartref. www.sheltercymru.org.uk, www.housemate.org.uk

Gweler yr adran Gwybodaeth Bellach am restr o sefydliadau sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc y maent yn agored i niwed yn y system addysg

Adran 5: Cynnwys Rhieni yn yr Ysgol

Mae Estyn^{lviii} yn pwysleisio pwysigrwydd gweithio mewn ffordd fwy systematig gyda rhieni er mwyn cynorthwyo disgyblion difreintiedig. Ceir corff enfawr o dystiolaeth^{lxxvi} sy'n dangos bod cynnwys rhieni wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a chanlyniadau plentyn yn yr ysgol, gan leddfu canlyniadau negyddol incwm isel. Bu Feinstein et al^{lxxvii} yn adolygu data gwaith ymchwil a gynhaliwyd dros bron i 40 o flynyddoedd, gan ddod i'r casgliad, “*mae rhiant sy'n cynorthwyo dysgu plentyn yn cyflawni rôl arwyddocaol cyson wrth wella canlyniadau'r plentyn, beth bynnag fo dosbarth cymdeithasol, addysg neu gyfoeth y rhieni*”.

Canfuwyd mai cyswllt rhieni gyda darllen eu plant yw'r penderfynydd pwysicaf ar gyfer iaith a llythrennedd sy'n datblygu.^{lxxviii} Canfu Estyn^{lviii}, fodd bynnag, bod y rhan fwyaf o ysgolion yn nodi mai ymgysylltu gyda rhieni yw'r sialens fwyaf wrth fynd i'r afael â thangyflawni ymhlith dysgwyr difreintiedig.

Mae profiadau addysg nifer o rieni tlotach wedi bod yn ddi-fudd, efallai eu bod wedi gadael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau ac efallai y byddant yn teimlo'n anghyffyrddus mewn lleoliadau ysgol. Efallai na fydd gan rai hyder wrth ddelio gyda gweithwyr proffesiynol. Bydd rhieni y mae ganddynt sgiliau llythrennedd gwael yn cael anhawster wrth helpu plentyn gyda'u gwaith ysgol.

Mae astudiaethau'n dangos^{lxxix} bod gan rieni dosbarth canol ac y maent yn gallu mynegi eu hunain, fanteision eglur wrth gyfleu eu safbwyntiau ac wrth sicrhau eu bod yn cael eu derbyn. Mae rhieni tlotach yn fwy tebygol o gael cyswllt gydag ysgolion pan fyddant yn teimlo bod eu plentyn wedi cael eu trin mewn ffordd annheg e.e. mewn perthynas ag ymddygiad eu plentyn.

“Mae mam yn fy helpu gyda'r sillafu achos bod geiriadur ganddi ac mae'n Arabig, ond nid yw'n gallu siarad llawer o Saesneg, felly gwnaethom fenthycha geiriadur Saesneg gan yr ysgol” bachgen saith oed^{xxiv}

Beth fydd ei angen ar rieni er mwyn iddynt allu cymryd rhan?

- **Anogaeth a'r teimlad eu bod yn cael eu croesawu yn yr ysgol.** Canfu Estyn^{lxxx} mai ysgolion y maent yn sicrhau'r llwyddiant mwyaf wrth annog rhieni 'anodd i'w cyrraedd' i gymryd rhan, yw'r rhai y maent yn aml yn cynnig lluniaeth fel cymhelliant
- **Meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda rhieni** trwy fod yn glir i'w gweld ac yn hawdd troi atynt yn yr ysgol ac ar y maes chwarae, yn enwedig ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol
- Mae rhai ysgolion yn **cynnig ymweliadau cartref** pan fydd plant yn dechrau yn yr ysgol ar lefel feithrin neu dderbyn. Mae cyfarfod pob plentyn yn eu cartref yn gallu bod yn hynod o werthfawr wrth gasglu gwybodaeth a fydd yn galluogi'r plant i setlo yn eu hysgol newydd a helpu staff i asesu lefel eu hangen yn yr ystafell ddosbarth. Yn ogystal, mae'n golygu bod y rhiant yn cael amser ffocws gyda'r athro neu'r cynorthwydd cymorth dysgu, ac mae hyn yn helpu i feithrin perthynas dda
- **Darparu gwybodaeth a syniadau i rieni ynghylch sut y gallant helpu eu plant i ddysgu,** gan bod ymchwil yn dangos bod rhoi strwythurau eglur i rieni er mwyn helpu eu plant yn gwneud gwahaniaeth^{lxxxi} Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi dau lyfryn i rieni bob blwyddyn, sy'n rhoi syniad mwy eglur iddynt o'r hyn sy'n cael ei ddysgu i'w plentyn, sut y caiff cynnydd ei fesur, ac er mwyn eu helpu i baratoi ar gyfer trafodaethau gydag athrawon ynghylch eu plentyn.
[://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/howisyouchilddoingatschool09/?skip=1&lang=](https://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/howisyouchilddoingatschool09/?skip=1&lang=)

- **Dealltwriaeth o amgylchiadau rhiant** a delio gyda materion mewn ffordd sensitif, materion megis: cost gwisg ysgol, offer a theithiau (gweler Adran 1); materion ynghylch diwylliant ac iaith ar gyfer grwpiau lleiafrifol a llythrennedd gwael. Mae rhai rhieni y maent wedi cael profiad gwael mewn ysgol yn fwy tebygol o deimlo bod eu barn nhw yn cael ei ddiystyru, felly efallai y bydd angen gwneud gwaith ychwanegol er mwyn estyn braich iddynt a meithrin perthynas gadarnhaol gyda nhw
- **Cynnwys rhieni yn gynnar gyda phroblemau disgyblu neu bresenoldeb**, gan gynnig help a chymorth pan na fydd modd i rieni fynd i'r afael â'r broblem eu hunain. Mae ffonio rhieni a rhoi adborth gadarnhaol iddynt pan fydd eu plentyn wedi cael wythnos dda, yn hytrach na phan fydd y plentyn yn cael un wael yn unig, yn gallu bod o ddefnydd. Yn ogystal, mae hyn yn gallu helpu i feithrin perthynas gadarnhaol gyda'r rhieni. Efallai y bydd rhieni yn cael anhawster wrth reoli ymddygiad yn y cartref hefyd, ac efallai eu bod yn teimlo'n hollol aneffeithiol wrth geisio dylanwadu ar ymddygiad yn yr ysgol. Efallai y bydd angen eu cyfeirio at asiantaethau sy'n gallu cynnig cyngor a chymorth. Ni ellir gorbwysleisio'r angen am ymyrraeth gynnar a chymorth gan wasanaethau effeithiol, oherwydd bod dirwyo neu garcharu rhieni yn gallu cael effaith negyddol ar blant hefyd
- Mae **cytundebau rhwng yr ysgol a'r cartref** yn gallu egluro'r hyn y mae ysgolion yn ei ddisgwyl gan rieni, ond ni fyddant yn effeithiol oni bai eu bod yn deillio o drafodaeth a chyd-drafod go iawn rhwng athrawon, rhieni a dysgwyr. Gallai rhieni tlotach y maent eisoes dan straen eu gweld fel pwysau ychwanegol a chyfle arall i gael eu beio.^{lxxxii} Efallai y bydd rhieni y mae eu sgiliau llythrennedd yn wael neu nad ydynt yn gallu siarad iaith yr ysgol yn rhugl, yn llofnodi cytundebau heb ddeall yr hyn sydd ynddynt hyd yn oed
- Mae **gweithwyr cymorth**^{lxxxiii} yn gallu gwneud gwahaniaeth sylweddol i brofiad ysgol plant, gan ostwng nifer y gwaharddiadau am gyfnod penodol a chael effaith gadarnhaol ar y cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r cartref.
- **Cyfleoedd i rieni ddysgu wrth ochr eu plant neu ar wahân.** Mae modd i ysgolion feithrin partneriaethau gyda chyrff addysg i oedolion a grwpiau cymunedol a gwirfoddol er mwyn cynnig y cyfleoedd hyn. Gallai hyn gynnwys sgiliau sylfaenol, cyfrifiadura neu sgiliau sy'n gysylltiedig gyda rhianta
- **Contractau rhianta a gorchmynion rhianta** – Dywedodd y rhieni y buont yn cymryd rhan mewn gweithgarwch ymgynghori a gynhaliwyd gan Weithredu dros Blant, y byddent yn croesawu cymorth rhianta dan drefniant gwirfoddol, ond nad yw cymorth o'r fath wastad ar gael. Os bydd rhieni yn cael cynnig cwrs rhianta fel rhan o orchymyn rhianta, maent yn llai tebygol o gychwyn y cwrs mewn hwyl gadarnhaol, a bydd yn rhaid i hwyluswyr cyrsiau ddelio gyda theimladau gwrthwynebus cyn y bydd modd i'r gwaith adeiladol gychwyn

Sut mae modd i ysgolion ymgysylltu gyda'r Gymuned?

Mae Estyn yn cydnabod nad oes modd i ysgolion dorri'r cyswllt rhwng cyflawniad a bod yn ddifreintiedig ar eu pen eu hunain. Er bod gan bob ysgol rôl pwysig wrth wella cyflawniadau disgyblion difreintiedig, mae gwaith ymchwil yn pwysleisio'r angen am ddulliau gweithredu eang a holistig y maent yn cynnwys nifer o asiantaethau yn cydweithio er mwyn rhoi sylw i faterion cymunedol. Yn ychwanegol i'r ysgol, mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau addysgol, cymdeithasol, iechyd a Thrydydd Sector eraill.

Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio ysgol fro fel *'un sy'n darparu ystod o wasanaethau a gweithgareddau, yn aml y tu hwnt i'r diwrnod ysgol, er mwyn helpu i ddiwallu anghenion ei disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach'*^{lxxxiii}

Gall ysgolion -

- Ddatblygu ac ymestyn cysyniad **'teuluoedd o ysgolion'** trwy leoli ac integreiddio gwasanaethau plant ac oedolion cyffredinol a'r rhai y maent yn darparu cymorth ychwanegol, addysg i oedolion a gweithgareddau'r Trydydd sector ar ac o gwmpas 'teuluoedd o ysgolion' ac yn ôl yr angen (e.e. mewn ardaloedd gwledig), gan ystyried sut y mae modd trefnu gwasanaethau o gwmpas dau "deulu o ysgolion' neu fwy.
- Datblygu dull gweithredu **ysgolion bro** fel rhan o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Byddai hyn yn cynnwys ymestyn a datblygu cysyniad ysgolion bro er mwyn mynd y tu hwnt i ddarpariaeth gweithgareddau allgyrsiol ar gyfer disgyblion ac aelodau'r gymuned, er mwyn galluogi ysgolion bro i fod yn ganolfannau neu'n ffocws ar gyfer ystod o wasanaethau y maent yn gallu cynorthwyo plant ac oedolion. Yn ogystal, byddai'n cynnwys cryfhau ymgysylltiad canolfannau **Cymunedau yn Gyntaf** mewn ardaloedd lleol lle y mae'r rhaglen hon yn cael ei gweithredu.
- Annog a datblygu rôl a chyfraniad aelodau'r gymuned a gweithwyr proffesiynol o'r tu allan i'r sector addysg mewn ysgolion trwy gyfrwng, er enghraifft, eu cyswllt gyda gweithgarwch llywodraethu ysgol, er mwyn gwella gwybodaeth ysgolion am y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu a grymuso asiantau dros newid lleol^{lxxxiv}.
- Cynnal a pharhau i ddatblygu gwasanaethau cymorth ar gyfer disgyblion, megis gweithwyr ieuencid, cwnselwyr ysgol, Nyrsys Plant sy'n Derbyn Gofal a swyddogion lles addysg/swyddogion cymorth ar gyfer disgyblion, y maent yn gweithio mewn ac ar draws ysgolion
- Datblygu cytundebau partneriaeth gydag asiantaethau cymorth ariannol, megis aelodaeth Undebau Credyd Lleol^{lxxxv} yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cyfle i bob ysgol uwchradd yng Nghymru droi at undeb credyd.

Mae dogfen Estyn (2008), **Arfer dda o ran cynnwys rhieni mewn ysgolion cynradd - Ebrill 2009** yn darparu gwybodaeth am arfer da ynghylch sut y mae ysgolion cynradd yn cynnwys rhieni mewn ffordd effeithiol er mwyn hyrwyddo lles disgyblion ac er mwyn gwella'r safonau y byddant yn eu cyflawni. <http://www.estyn.gov.uk/uploads/publications/6523.pdf>

Cylchlythyr Cynulliad Cymru 27/99: Cytundebau rhwng yr Ysgol a'r Cartref, Canllawiau i Ysgolion
http://www.wales.gov.uk/subieducationtraining/content/schoolperformance/governance/27_99_e.htm

Mae **Families and Schools Together (FAST)** yn brosiect ar gyfer plant tair i bump oed sy'n ceisio cynyddu cyswllt rhieni gydag addysg eu plant trwy annog rhieni a phlant i gyflawni tasgau bob-dydd ac i feithrin eu sgiliau gyda'i gilydd. Ar hyn o bryd, mae cynllun FAST yn cael ei gyflawni mewn 11 gwlad a 2,000 o ysgolion ar draws y byd, gan gynnwys yng Nghymru. Mewn dau beilot yng Nghaerffili, canfuwyd bod plant yn ymddwyn yn well, yn sicrhau perfformiad academiaidd gwell, ac yn profi perthnasoedd gwell yn y cartref. <http://www.savethechildren.org.uk/where-we-work/united-kingdom/fast>

Mae **Rhaglen Magu Plant Cysylltiadau Teuluol** yn rhaglen y gwnaethpwyd gwaith gwerthuso da ohoni, i'w defnyddio gyda disgyblion 3-13 oed. Ei nod, ymhlith pethau eraill, yw meithrin cysylltiadau rhwng yr ysgol, y cartref a'r gymuned ehangach. Mae'n cynnwys hyfforddiant disgyblaeth gadarnhaol ar gyfer staff ysgol a rhieni, gan sicrhau bod agweddau, technegau ac iaith a ddefnyddir yn y cartref a'r ysgol yn gyson. I gael manylion, cysylltwch ag info@familylinks.org.uk

Mae **Rhaglen Rhieni y Blynyddoedd Rhyfeddol** yn gweithio er mwyn annog rhieni i feithrin perthnasoedd gwell gydag ysgolion. www.incredibleyears.wales.co.uk

Gwybodaeth Bellach

Mae **Gweithredu dros Blant Cymru** yn gwneud gwaith gydag ysgolion ym maes dadrithiad, gwaharddiadau o ysgolion, pontio i'r ysgol uwchradd, grwpiau pobl ifanc a rhaglen 'Rhieni fel Athrawon Cyntaf'. Gweithredu dros Blant Cymru, 68a Heol Dwyrain y Bont-faen, Caerdydd, CF11 9DN, Ffôn: 02920 222127, [://www.actionforchildren.org.uk/](http://www.actionforchildren.org.uk/)

Mae gan **Barnardo's Cymru** 39 o wasanaethau, gan gynnig cymorth i'r plant, y bobl ifanc, y teuluoedd a'r cymunedau mwyaf agored i niwed a difreintiedig yng Nghymru. Barnardo's Cymru Llys Trident, Heol East Moors, Caerdydd CF24 5DT, Ffôn: 029 2049 3387, Ffacs: 029 2048 9802, barnardos.org.

Canolfan Ymyrraeth Cynnar ar Sail Tystiolaeth (CEBEI) (Blynnyddoedd Rhyfeddol (BRh) Cymru yn flaenorol): Canolfan Blynnyddoedd Rhyfeddol Cymru, Adeilad Nantlle, Safle Normal, Prifysgol Bangor, Gwynedd. LL57 2PZ. Ffôn: 01248 383 758, Ffacs: 01248 382 652 E-bost: williams@bangor.ac, incredibleyears.wales.co.uk/

Mae gan **ChildLine** linell gymorth 24 awr am ddim ar gyfer plant a phobl ifanc, ffôn: 0800 1111. Mae modd lawrlwytho gwybodaeth ar gyfer athrawon, rhieni a phobl ifanc ynghylch nifer o faterion o'r wefan childline.org.

Plant yng Nghymru yw'r sefydliad ambarél cenedlaethol yng Nghymru, gan ddwyn ynghyd sefydliadau ac unigolion o bob disgyblaeth a sector. Mae ei wefan yn cynnwys gwybodaeth am Wasanaethau Gwybodaeth i Blant, Gwasanaethau Awdurdodau Lleol ar gyfer Plant a Theuluoedd, ac mae'n cynnwys manylion mudiadau gwirfoddol eraill y maent yn cynorthwyo plant a theuluoedd. Trowch at childreninwales.org.

Mae **Comisiynydd Plant Cymru** a'i swyddfa yn gweithio dros bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru y maent dan 18 oed, neu dan 25 oed os ydynt wedi bod yn derbyn gofal. Rydym yn cynorthwyo plant a phobl ifanc i gael gwybodaeth am hawliau plant, rydym yn gwrando ar blant a phobl ifanc er mwyn darganfod yr hyn sy'n bwysig iddynt, rydym yn cynghori plant, pobl ifanc a'r sawl sy'n gofalu amdanynt os ydynt yn teimlo nad oes modd iddynt droi i unrhyw le arall gyda'u problemau, rydym yn dylanwadu ar y llywodraeth ac ar sefydliadau eraill sy'n dweud eu bod yn mynd i wneud gwahaniaeth i fywydau plant, gan sicrhau eu bod yn cadw eu haddewidion i blant a phobl ifanc, gan siarad o blaid plant a phobl ifanc ar lefel genedlaethol ynghylch materion pwysig-bod yn eiriolwr dros blant yng Nghymru. childcom.wales.org.

Cyngor ar Bopeth - Advice Guide yw gwasanaeth ar-lein Cyngor ar Bopeth sy'n darparu cyngor annibynnol ynghylch hawliau – gan gynnwys materion sy'n ymwneud gyda budd-daliadau, tai, cyflogaeth a dyled, materion defnyddwyr a materion cyfreithiol. Mae'r wybodaeth ar gael yn Gymraeg, Saesneg, Bengaleg, Gwjarati, Pwnjabeg, Wrddw a Tsieineeg. Mae modd argraffu taflenni ffeithiau defnyddiol. adviceguide.org.uk/

Cynlluniwyd **Datrys Tlodi Plant Cymru** er mwyn helpu pobl y maent yn gweithio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru i ddatblygu ymatebion lleol er mwyn lleihau tloedi plant. Mae Datrys Tlodi Plant Cymru yn offeryn ar y we a baratowyd gan Achub y Plant a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gyda chymorth Llywodraeth Cymru. [://www.childpovertysolutions.org.uk/](http://www.childpovertysolutions.org.uk/)

Mae **Cyswilt Teulu** yn elusen ar draws y DU, sy'n darparu cymorth, cyngor a gwybodaeth i deuluoedd y maent yn cynnwys plant anabl. Maent yn cynnig gwybodaeth am gyflyrau penodol ac anhwylderau prin, ac yn galluogi rhieni i gysylltu gyda theuluoedd eraill ar lefel leol a chenedlaethol. Cyswilt Teulu Cymru, 33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd CF11 9HB, Ffôn: 029 2039 6624 e-bost: office@cafamilly.org, Gwefan: cafamilly.org.uk/inyourarea/wales/index.

Mae **ContinYou Cymru** yn elusen dysgu cymunedol sy'n darparu gwasanaethau a rhaglenni mewn partneriaeth gydag ysgolion a sefydliadau eraill ar gyfer plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai yn y cymunedau mwyaf difreintiedig. ContinYou Cymru, Llawr Cyntaf, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW, Ffôn: 029 2047 8929, Ffacs: 029 2047 8930, [.cardiff@continyou.org](mailto:cardiff@continyou.org), [.continyou.org.uk/index](http://continyou.org.uk/index). Mae clybiau pyramid yn helpu plant cynradd i feithrin eu sgiliau, eu hyder a'u hunan-barch. Cynhelir cynlluniau pyramid fel clybiau ar ôl ysgol, dan drefniant rhaglen ddeg wythnos fel arfer.

Mae **Gofal Croesffyrdd Cymru** yn rhan o Gymdeithas Gofal Croesffyrdd, sy'n darparu cymorth i ofalwyr a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt. Mae nifer o swyddfeydd Gofal Croesffyrdd yn cynnal Prosiectau penodol ar gyfer Gofalwyr Ifanc crossroads.org.uk/index.php?mid=2&sid=11&pgid=

Rhifau llinellau cymorth Cam-drin Domestig

Llinell gymorth Cam-drin Domestig: 0808 8010 800; Black Association of Women Step Out (BAWSO): 0800-731 8147; [.welshwomensaid](http://welshwomensaid).

Mae **Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru** yn glymblaid o gonsyrn sy'n canolbwyntio ar ddileu tlodi ymysg plant yng Nghymru, ac sy'n cael ei gydlynw a'i reoli o ddydd i ddydd gan Plant yng Nghymru. Mae'r grŵp llywio yn cynnwys cynrychiolaeth o'r sectorau gwirfoddol a statudol, ac mae gan y Rhwydwaith aelodaeth gefnogol gynyddol yn deillio o drawstoriad eang o asiantaethau. [.endchildpovertycymru.org](http://endchildpovertycymru.org).

Mae **Cymdeithas Saesneg fel Iaith Ychwanegol yng Nghymru** yn sefydliad cenedlaethol di-elw sydd wedi ymrwymo i'r gwaith o wella datblygiad cwricwlwm ac iaith disgyblion y maent yn dysgu Saesneg fel iaith Ychwanegol. [.ealaw.org.uk/](http://ealaw.org.uk/)

Estyn yw Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, sy'n ceisio codi safonau ac ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru trwy gyfrwng gweithgarwch arolygu a chynghori. [.estyn.gov.uk/](http://estyn.gov.uk/)

Mae'r **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** yn gweithio i leihau gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb, a dylanwadu ar bolisi ac arfer. [.equalityhumanrights](http://equalityhumanrights).

Mae **INCLUDE** yn elusen genedlaethol sy'n ceisio mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol ymhlith pobl ifanc trwy gyfrwng cyfuniad o weithio aml-asiantaeth, cymorth unigol ar gyfer yr unigolyn ifanc a gweithgarwch ymgysylltu gyda'r teulu a'r gymuned ehangach. [.include.org](http://include.org).

Meic yw'r llinell gymorth genedlaethol sy'n darparu gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc 0 i 25 oed yng Nghymru, [.meiccymru.org/](http://meiccymru.org/) a 080880 23456

Mae **Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Teithwyr** yn gweithio i hyrwyddo a gwella addysg Teithwyr. Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth a chysylltiadau am yr adnoddau sydd ar gael i'w defnyddio mewn ysgolion gyda phlant Teithwyr [.natt.org.uk/index](http://natt.org.uk/index).

Gweithredu Ynni Cenedlaethol Cymru yw'r elusen genedlaethol sy'n ymgysylltu dros gartrefi cynnes a thros ddileu tlodi tanwydd. Mae NEA wedi cynnal sawl prosiect mewn ysgolion er mwyn mynd i'r afael â thlodi tanwydd mewn teuluoedd. Mae modd gweld rhagor o wybodaeth ar y wefan [.nea.org](http://nea.org).

NSPCC Cymru Os ydych yn gofidio am blentyn, ffoniwch Llinell Gymorth NSPCC a siaradwch gydag un o'i swyddogion, Ffôn: 0808 800 5000, testun 88858 E-bost: @nspcc.org. Mae'r llinell gymorth yn ddwyieithog ac mae modd i unrhyw un y mae ganddynt bryder am blentyn gysylltu â hi. Mae help ar gyfer plant a phobl ifanc ar gael gan ChildLine, Ffôn: 0800 1111

Mae **Iechyd Cyhoeddus Cymru** yn darparu gwasanaethau a chynghor iechyd cyhoeddus annibynnol a phroffesiynol er mwyn diogelu a gwella iechyd a lles poblogaeth Cymru. [.publichealthwales.wales.nhs.uk/](http://publichealthwales.wales.nhs.uk/)

Y Samariaid yng Nghymru Mae modd cysylltu â gwirfoddolwyr y Samariaid ar 08457 90 90 90 neu anfon e-bost at @samaritans. samaritans.

Mae **Achub y Plant** yn gwneud gwaith ym maes Tlodi Plant ac Addysg yng Nghymru. Maent yn cynnig deunyddiau a gwasanaethau am ddim ac am gost ar gyfer athrawon a gweithwyr ieuenctid, a cheir gwybodaeth bellach ar y wefan sef savethechildren.org, E-bost: @savethechildren.org.

Shelter Cymru yw'r elusen dai a digartrefedd. Mae Shelter Cymru o'r farn bod tai gwael yn difetha bywydau, ac y dylai pawb gael cartref addas a boddhaol. Mae'r sefydliad yn helpu pobl i sicrhau cartref a chadw gafael arno, gan ymgychu dros dai boddhaol i bawb. Am wybodaeth bellach am y Gwasanaeth Addysg, cysylltwch â Shelter Cymru, 25 Heol Walter, Abertawe SA1 5NN, Ffôn: 0845 075 5005, sheltercymru.org.

Mae **SNAP Cymru** yn cynnig gwybodaeth a chyngor i deuluoedd plant a phobl ifanc y mae ganddynt anghenion addysgol arbennig. SNAP, 10 Coopers Yard, Curran Road, Caerdydd CF10 5NB, Ffôn: 0845 1203730, E-bost: enquiries@snapcymru.org, snapcymru.org

Mae **Lleisiau Gofal** yn cynnig cymorth, gwybodaeth, cyngor a gwasanaeth eiriolaeth unigol i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Cysylltwch â Lleisiau Gofal, 39 The Parade, Y Rhath, Caerdydd CF24 3AD Ffôn: 029 20451431 Ffacs: 029 20489136 voicesfromcarecymru.org.

Llywodraeth Cymru, Ysgolion Addysg a Sgiliau, Ffôn: 0300 0603300 neu 0845 010 3300 [://wales.gov.uk/topics/educationandskills/?lang=](http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/?lang=)

Mae **Cyngor Ffoaduriaid Cymru** yn cynnig cyngor, cymorth, gwaith achos ac eiriolaeth ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Mae ganddo swyddfeydd yng Nghasnewydd, Abertawe a Wrecsam. Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Tŷ Phoenix, 389 Ffordd Casnewydd, Caerdydd CF24 1TP, Ffôn: 029 2048 9800, Ffacs: 029 2043 2980, E-bost: @welshrefugeecouncil, Gwefan: welshrefugeecouncil.

Cyfeiriadau

- i Waaldfogel, J. (2010) Britain's War on Poverty, Efrog Newydd: Russell Sage Foundation
- ii Brewer, M., Browne, J. a Joyce R. (2011) Children and Working Age Poverty 2010 to 2020, Llundain: Sefydliad Astudiaethau Cyllidol <http://www.ifs.org.uk/publications/5711>
- iii Adran Gwaith a Phensiynau (2011) Households Below Average Income, 2007-08 to 2009-10" http://statistics.dwp.gov.uk/asd/hbai/hbai2010/pdf_files/full_hbai11.pdf
- iv Parekh, A a Kenway, P. (2011) Monitoring poverty and social exclusion in Wales 2011 Sefydliad Joseph Rowntree <http://www.jrf.org.uk/publications/monitoring-poverty-and-social-exclusion-wales-2011>
- v Llywodraeth Cynulliad Cymru (2011) Strategaeth Tlodi Plant Cymru, Chwefror 2011 <http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/poverty/newcpstrategy/?lang=en>
- vi Adran Addysg (2010) Deddf Tlodi Plant 2010 <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/9/contents>
- vii Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2010) Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 <http://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/1/contents>
- viii Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion <http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/091020frameworken.pdf>
- ix Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2009) Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 <http://www.legislation.gov.uk/mwa/2009/1/contents>
- x "Mae addysgu'n gwneud gwahaniaeth" - Leighton Andrews, 2 Chwefror 2011 <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/allsectorpolicies/ourevents/teachingmakesadifference/?jsessionid=zDkvNBbKs4NZHXYzTJswvTRTVpnjTx1SGVt6BXGBkC2PYQQ7Zv1b!1895062788?lang=en>
- xi Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru (2010) Tlodi Plant: Maniffesto tuag at Ddileu <http://www.childreninwales.org.uk/areasofwork/childpoverty/povertypublications/index.html>
- xii Preston, G. (Ed.), "At Greatest Risk: The Children most likely to be poor", Grŵp Gweithredu Tlodi Plant, 2005
- xiii Estyn (2010) Mynd i'r afael â Thlodi Plant ac Anfantais mewn Ysgolion, Estyn <http://www.estyn.gov.uk/uploads/publications/65.pdf>
- xiv Raffo, C. et al (2007) Education and poverty: A critical review of theory, policy and practice. Sefydliad Joseph Rowntree a Phrifysgol Manceinion
- xv Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Ein Dyfodol Iach, Hydref 2009
- xvi Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru "Amddifadedd ac Iechyd", 2004
- xvii Parekh, A a Kenway, P (2010) Monitoring poverty and social exclusion in Wales 2011. Sefydliad Joseph Rowntree a'r Sefydliad Polisi Newydd
- xviii DiGuseppi C, Edwards P, Godward C, Roberts I a Wade A. "Urban residential fire and flame injuries: a population-based study", Injury Prevention 2000; 6 (4): 250 - 4
- xix Asiantaeth Datblygu Iechyd (2005) "Injuries in children aged 0-14 years and inequalities"
- xx Asiantaeth Datblygu Iechyd (2005) "Injuries in children aged 0-14 years and inequalities"
- xxi Adran Gwaith a Phensiynau (2004) "Opportunity for all, Sixth Annual Report"
- xxii Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (2005, "Obesity among children under 11"
- xxiii Llywodraeth Cynulliad Cymru, "Ymgynghoriad Grŵp Gorchwyl Tlodi Plant", Mehefin 2004
- xxiv Crowley, A. a Vulliamy, C., "Listen Up! Children and Young People Talk: About Poverty", Achub y Plant, 2003
- xxv The Foundation Years: preventing poor children becoming poor adults , The report of the Independent Review on Poverty and Life Chances Frank Field Rhagfyr 2010
- xxvi Users guide to second millennium cohort study, Institute for Longitudinal Studies Llundain 2007
- xxvii Social Mobility: Narrowing Social Class Educational Attainment Gaps, DfES, 2006.
- xxviii Estyn (2010) Mynd i'r afael â Thlodi Plant ac Anfantais mewn Ysgolion, Ionawr 2010 <http://www.estyn.gov.uk/uploads/publications/65.pdf>
- xxix Social inequality: can schools narrow the gap? Golygwyd gan Kirstin Kerr a Mel West Cymdeithas Ymchwil Addysg Brydeinig 2010
- xxx Sylva et al (2004) The Effective Provision of Pre-School Education (EPPE) Project: Findings from Pre-school to end of Key Stage1; Sure Start Research Summary 01 HMSO <http://www.surestart.gov.uk/doc/P0001378.pdf>
- xxxi Cassen, R. a Kingdon, G. (2007) Tackling low educational achievement, York: JRF
- xxxii Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion Creu cymunedau dysgu effeithiol gyda'n gilydd
- xxxiii Egan, D. (2007) Combating child poverty in Wales: are effective education strategies in place? York: JRF

- xxxiv Achub y Plant (2010) Working better together: Partnership working to improve the educational attainment of the poorest children in Wales, Ymchwil a ariannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Chwefror 2010 <http://wales.gov.uk/docs/dsijlg/research/100311childrenres.pdf>
- xxxv Llywodraeth Cynulliad Cymru, "Cau'r Bwlch ym Mherfformiad Ysgolion", 2002
- xxxvi Llywodraeth Cynulliad Cymru, "Prosiect Cau'r Bwlch ym Mherfformiad Ysgolion: Cam II Ysgolion Cynradd", 2005
- xxxvii Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) Llwybrau Dysgu 14-19: Canllawiau <http://wales.gov.uk/dcells/publications/publications/circularsindex/04/learningpathways/nafwc3704-e.pdf?lang=en>
- xxxviii Adroddiad Blynnyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd 2010
- xxxix Adran Addysg a Sgiliau (2009) "The Cost of Schooling 2007", Adroddiad Ymchwil DCSF-RR060
- xl Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Canllawiau ar gyfer Cyrff Llywodraethu ar Bolisiâu Gwisg Ysgol ac Edrychiad Disgyblion, Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif Cylchlythyr: 006/2008, Chwefror 2008
- xli Willow, C. "Bread is free: children and young people talk about poverty", Children's Rights Alliance for England ac Achub y Plant, 2001
- xlii http://www.studentfinancewales.co.uk/portal/page?_pageid=616,6382442&_dad=portal&_schema=PORTAL
- xliii Storey, R. a Chamberlin, R. (Adran Addysg a Chyflogaeth) "Improving the take-up of free school meals", Uned Ymchwil Thomas Coram, Sefydliad Addysg, 2001
- xliv http://www.rmdl.co.uk/sftresources/index.php?pack_id=13
- xlv Ridge, T. "Childhood poverty and social exclusion from a Child's Perspective", The Policy Press, 2002
- xlvi Llywodraeth Cymru (2011) Arweiniad i Gyrff Llywodraethu ynghylch Codi Tâl am Weithgareddau Ysgol (diwygiwyd Hydref 2011) <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/fundingschools/schoolfunding/chargingforschoolactivities/?skip=1&lang=en>
- xlvii Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Ein Dyfodol Iach, Hydref 2009
- xlviii Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru "Amddifadedd ac Iechyd", 2004
- xlix Ipsos MORI (2011) Health Behaviour in School aged Children: initial findings from the 2009/10 survey in Wales, Ymchwil Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011, ISBN 978 0 7504 6180 1
- l Gill, O. a Sharma, N., "Food poverty in the school holidays", Barnardo's, 2004
- li Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) "Cynllun Gweithredu Blas am Oes", Chwefror 2010 Rhif Dogfen Wybodaeth: 026/2007
- lii Llywodraeth Cynulliad Cymru, "SDR 104/2011 Digartrefedd, Ionawr i Mawrth 2011"
- liii Llywodraeth Cynulliad Cymru, "Arferion Da mewn perthynas â Cham-drin Domestig: Diogelu Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru", 20
- liv Blanden, J. a Machin, S. (2007) "Recent Changes in Intergenerational Mobility in Britain", Sutton Trust, Centre for Economic Performance a London School of Economics and Political Science, Rhagfyr 2007
- lv Goodman, A. a Gregg, P (Eds) (2010) The importance of attitudes and behaviour for poorer children's educational attainment, Sefydliad Joseph Rowntree <http://www.jrf.org.uk/sites/files/jrf/poorer-children-education-summary.pdf>
- lvi Ermisch, J, Francesconi, M. a Pevalin, D. J., "Outcomes for Children of Poverty", Adran Gwaith a Phensiynau, 2001
- lvii Llywodraeth Cymru (2010) Bwletin Ystadegol SB 105/2010 Beichiogi yn yr Arddedau, 2008, Rhagfyr 2010
- lviii Estyn (2011) Mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion: gweithio gyda'r gymuned a gwasanaethau eraill, Gorffennaf 2011 www.estyn.gov.uk/uploads/publications/65.pdf
- lix Allen, G (2011) Early Intervention: The next steps, Adroddiad annibynnol i Lywodraeth Ei Mawrhydi Graham Allen AS. Llywodraeth EM, Ionawr 2011
- lx UNICEF (2010), 'The Children Left Behind: A league table of inequality in child well-being in the world's rich countries', Innocenti Report Card 9, UNICEF Innocenti Research Centre, Florence
- lxi Ail Adroddiad Blynnyddol Comisiynydd Plant Cymru, Hydref 2003
- lxii Llywodraeth Cynulliad Cymru, "Ydych chi'n gwrando? Barn plant a phobl ifanc anabl yng Nghymru am y gwasanaethau a ddefnyddiant" Adroddiad Ymgynghorol i weithredu fel sail i'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc, 2003
- lxiii Webb, R. a Vulliamy, G., "A Multi-Agency Approach to Reducing Disaffection and Exclusions from School", Adroddiad Ymchwil yr Adran Addysg a Sgiliau RR568, Prifysgol Efrog, 2004
- lxiv Datganiad Ystadegol Cyntaf Llywodraeth Cymru, "Absenoldeb o Ysgolion Uwchradd, 2010/11", SDR 156/2011, Medi 2011
- lxv Saunders, D. (2008) Anogwyr Dysgu Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Medi 2008

-
- lxvi Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009: Gwasanaethau cymorth i ddysgwyr a chanllawiau Dogfen Llwybrau Dysgu, Llywodraeth Cymru
- lxvii Powell, R et al (2006) Transition from Primary to Secondary School: Current Arrangements and Good Practice in Wales: Final Report, Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg
- lxviii Cymdeithas Saesneg fel Iaith Ychwanegol yng Nghymru (EALAW), "The Achievement of Ethnic Minority Pupils in Wales", 2003
- lxix Achub y Plant, "Dyfodol Ansicr – plant sy'n ceisio lloches yng Nghymru", 2005
- lxx Estyn (2011) Addysg disgyblion Sipsiwn-Teithwyr: Y diweddaraf am y ddarpariaeth mewn ysgolion uwchradd, Mehefin 2011
- lxxi Adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal am y gwasanaeth a ddarparir ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003
- lxxii Social inequality: can schools narrow the gap? Golygwyd gan Kirstin Kerr a Mel West Cymdeithas Ymchwil Addysg Brydeinig 2010
- lxxiii Mustafa, Z., "Listen Up: the voices of homeless children", Shelter, 2004
- lxxiv Shelter Cymru, Housing and the Asthma Epidemic, Gorffennaf 2004
- lxxv Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif Cylchlythyr: 47/2006, Tachwedd 2006
- lxxvi Desforges, C. a Bouchaard, A. (2003) The Impact of Parental Involvement, Parental Support and Family Education on Pupil Achievement and Adjustment: A literature review; Adroddiad Ymchwil DfES 433
- lxxvii Feinstein et al (2006) Predicting adult life outcomes from earlier signals: Identifying those at risk; Llundain: Sefydliad Addysg
- lxxviii Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol (2007) Why it is important to involve parents in their children's literacy
- lxxix Cozier, G. "Parental Involvement, who wants it?" International Studies in Sociology of Education Vol 9 no 3 1999
- lxxx Estyn (2008) Arfer dda o ran cynnwys rhieni mewn ysgolion cynradd – Ebrill 2009
- lxxxi Sheffield REAL Project : Preschool Literacy Intervention Involving Parents, 1995-2003
- lxxxii Cozier, G. "Parental Involvement, who wants it?" International Studies in Sociology of Education Vol 9 no 3 1999
- lxxxiii Rhif Cylchlythyr 34/2003 CCC 'Ysgolion Bro'
- lxxxiv <http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/research/100311childrenres.pdf>
- lxxxv <http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/feature/101206cuactionplanen.pdf>

Offeryn Hunanasesu (I'w ychwanegu yma)